Adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

CYSUR 2/2018

Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd: 17 Hydref 2019

Adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion

CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant/Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig Parthed:
CYSUR 2/2018

Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

Pethau i'w cynnwys yma:

- *Cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau y mae'r adolygiad yn gysylltiedig â nhw*
- *Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad*
- *Cyfnod o amser a adolygwyd a pham*
- *Llinell amser gryno o ddigwyddiadau o bwys i gael ei hychwanegu fel atodiad*

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â deddfwriaeth statudol a nodir yn adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*[1] a'r canllawiau cysylltiedig, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*[2] (Llywodraeth Cymru, 2016). Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn o dan Bennod 7 – Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig.

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant estynedig yn unrhyw un o'r achosion canlynol yn ardal y Bwrdd lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn wedi digwydd a lle mae'r plentyn:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; **ac**

roedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu roedd yn blentyn a oedd yn derbyn gofal (gan gynnwys person dros 18 oed a oedd wedi gadael gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y chwe mis cyn –

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y nododd awdurdod lleol neu bartner perthnasol[3] fod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

Nodir y meini prawf ar gyfer cynnal adolygiadau plant estynedig yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[4].

Diben yr adolygiad yw nodi pethau i'w dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n ymwneud ag ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion yn archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau â phlentyn a'i deulu. Bwriedir i ganlyniad yr adolygiad annog dysgu proffesiynol a sefydliadol a helpu i wella ymarfer rhyngasiantaethol ym maes amddiffyn plant yn y dyfodol. Dylai gynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, gan gynnwys tynnu sylw at ymarfer effeithiol ac ystyriaethau o ran yr hyn y mae angen ei wneud yn wahanol er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol.

[1] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[2] Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru 2016)
[3] Ystyr awdurdod lleol neu bartner perthnasol yw person neu gorff y cyfeirir ato yn adran 28 o Ddeddf Plant 2004 neu gorff a gaiff ei grybwyll yn adran 175 o *Ddeddf Addysg 2002*
[4] Rheoliad 4(4) o *Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*

Yn ogystal, fel rhan o adolygiad estynedig bydd lefel ychwanegol o ddiogelwch a fydd yn cynnwys ystyried y materion canlynol:

- A oedd hanes neu wybodaeth berthnasol flaenorol am y plentyn/aelodau o'r teulu yn hysbys ac a ystyriwyd hyn wrth i weithwyr proffesiynol asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r plentyn, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd y wybodaeth honno at y canlyniad i'r plentyn.
- A oedd y cynllun amddiffyn plant (a/neu'r cynllun plant sy'n derbyn gofal neu'r cynllun llwybr) yn gadarn ac yn briodol ar gyfer y plentyn hwnnw a'i amgylchiadau.
- A gafodd y cynllun ei roi ar waith yn effeithiol, ei fonitro a'i adolygu ac a wnaeth pob asiantaeth gyfrannu'n briodol at y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r cynllun amlasiantaethol.
- Yr agweddau ar y cynllun a weithiodd yn dda, beth na weithiodd yn dda a pham. I ba raddau y gwnaeth asiantaethau herio ei gilydd mewn perthynas ag effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y plentyn. A gafodd y protocol ar gyfer anghydfod proffesiynol ei ddefnyddio.
- A gafodd priod ddyletswyddau statudol yr asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r plentyn a'r teulu eu cyflawni.
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a rwystrodd asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol). (Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)[5].

Gweler y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig hwn yn **Atodiad 1**

Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad

Roedd y fenyw ifanc yn 18 oed ac wedi gadael gofal, ac yn anffodus cafodd ei darganfod yn farw yn ei fflat gan yr Heddlu ar 22 Ionawr 2018, yn dilyn cais gan ei mam am wiriad lles. Yn dilyn post-mortem, cofnododd y patholegydd fod ei marwolaeth yn un naturiol o ganlyniad i Getoasidosis Hyperglycaemig, Diabetes Mellitus Math 1[6].

Roedd y fenyw ifanc wedi cael ei chartrefu gan yr Awdurdod Lleol ers mis Ionawr 2010 (roedd hi'n 10 oed ar y pryd), a rhoddwyd gorchymyn gofal llawn ar ei chyfer ar 6 Hydref 2011 o ganlyniad i'w hanes teuluol cymhleth a oedd wedi'i rhoi mewn perygl o gael ei cham-drin yn rhywiol, yn gorfforol ac yn emosiynol, a chael ei hesgeuluso; roedd pryderon penodol o ran anallu ei mam i reoli ei diabetes gartref, a oedd wedi arwain at sawl ymweliad â'r ysbyty.

Roedd hanes hir o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgysylltu â'r fenyw ifanc a'i brodyr a'i chwiorydd; a oedd wedi cynnwys achosion gofal, cyfnodau o fod ar y gofrestr amddiffyn plant (roedd y cyfnod diwethaf yn gyfredol hyd at ei phen-blwydd yn 18 oed), pum cais am orchymyn diogel, ac roedd y fenyw ifanc wedi derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, gyda Chynllun Gofal, ac ar ôl iddi adael gofal roedd ganddi Gynllun Llwybr (a gadwyd gan Weithiwr Cymdeithasol y Person Ifanc a oedd yn Derbyn Gofal) ar adeg ei marwolaeth.

O ganlyniad i amgylchiadau pryderus ei marwolaeth, ei hanes, ei hunanesgeulustod a'i chamreolaeth bersonol o'i diabetes, ynghyd ag ymgysylltiad helaeth amrywiaeth o asiantaethau, teimlwyd y dylid ystyried atgyfeirio'r mater o dan broses yr Adolygiad Ymarfer Plant gan fod y meini prawf ar gyfer cynnal Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig wedi'u bodloni.

[5] Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru 2016)

[6] Diabetes Mellitus (DM) yw'r term Lladin am ddiabetes. Caiff diabetes mellitus Math 1 ei achosi pan na fydd unigolyn yn gallu cynhyrchu inswlin sydd ei angen i reoli lefelau glwcos yn y gwaed. www.diabetes.co.uk.

Cyfnod o amser a adolygwyd a pham

Er mwyn adlewyrchu'r swm sylweddol o wybodaeth a chyfranogiad amlasiantaethol yn ystod y ddwy flynedd cyn marwolaeth y fenyw ifanc, estynnwyd llinell amser yr adolygiad i'r cyfnod hwyaf a ganiateir. Roedd y llinell amser a adolygwyd o 23 Ionawr 2016 tan 22 Ionawr 2018. Fodd bynnag, er mwyn deall y cyd-destun angenrheidiol, ystyriodd y broses ddysgu wybodaeth hanesyddol berthnasol mewn perthynas â'i phlentyndod anodd ac ansefydlog.

Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar ymarfer presennol, Cynllun Gofal y fenyw ifanc, Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol, Cynllun Amddiffyn Plant, ystyriaethau Cynllunio Cyfreithiol, a'i Chynllun Llwybr/trefniadau trosglwyddo dilynol. Caiff yr adolygiad ei lywio gan ddealltwriaeth o'r hyn a fyddai wedi bod yn bosibl ar y pryd, gyda'r wybodaeth/canllawiau a oedd ar gael ar y pryd.

Dylid nodi nad oedd unrhyw ymchwiliadau gan yr Heddlu, achosion barnwrol nac adolygiadau ymarfer cyfochrog yn mynd rhagddynt ar yr un pryd â'r Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig. Gan ei bod yn farwolaeth naturiol nid oedd angen cynnal cwêst, a daeth ymchwiliad helaeth yr Heddlu, a ddechreuwyd pan fu farw'r fenyw ifanc, i ben pan dderbyniwyd canlyniad y post-mortem.

Hanes Teuluol y Fenyw Ifanc a Gwybodaeth Gyd-destunol

Hyd at ei phen-blwydd yn 18 oed, roedd enw'r fenyw ifanc wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (10 Hydref 2016). Roedd hefyd wedi derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol ac, ar adeg ei marwolaeth, roedd wedi gadael gofal ac yn derbyn Cynllun Llwybr a, cyn hynny, roedd wedi cael ei chartrefu mewn Llety Diogel. Pan fu farw'r fenyw ifanc, roedd yn byw yn annibynnol ac roedd pecyn amlasiantaethol ar waith i'w chefnogi.

Roedd cydberthnasau â'r teulu yn gymhleth a'r trefniadau cyswllt hefyd (ar ddechrau'r llinell amser roeddent yn cael eu goruchwylio ar y cyfan). Gallai'r fenyw ifanc ymddwyn yn fygythiol tuag at ei mam a gyfaddefodd ei bod ofn ymddygiad ei merch tuag ati ar adegau.

Yn ystod y cyfnod hwn o'r adolygiad roedd y fenyw ifanc mewn cysylltiad uniongyrchol â dau o'i hanner brodyr/chwiorydd hŷn a'i mam, ynghyd â gofalwr maeth a oedd wedi'i chefnogi yn y gorffennol. Roedd y fenyw ifanc a'i hanner brawd hŷn wedi bod yn cyfathrebu â'i gilydd yn ysgrifenedig. Roedd gofalwyr maeth ei brawd/chwaer ieuengaf (nid oedd y fenyw ifanc mewn cysylltiad ag ef/hi) wedi rhoi rhywfaint o ffotograffau a gwybodaeth iddi a oedd wedi bod o fudd iddi. Bu rhywfaint o gysylltiad â hanner brawd (iau) y fenyw ifanc hefyd, beth amser cyn ei marwolaeth, ond nid oedd hyn wedi mynd yn dda. Cafwyd cysylltiad â thad y fenyw ifanc ym mis Chwefror 2017 ac eto ym mis Mawrth 2017 pan gadarnhaodd y tad nad oedd am gadw mewn cysylltiad â'i ferch. Fodd bynnag, esboniodd yr Awdurdod Lleol amgylchiadau presennol y fenyw ifanc iddo ar y pryd. Ceisiwyd cysylltu â thad y fenyw ifanc (yn dilyn cais ffurfiol gan yr Awdurdod Lleol) yn dilyn ei marwolaeth, ond gan ei fod wedi symud ac nid oedd cyfeiriad newydd ar gael, ni lwyddodd yr Heddlu i gysylltu ag ef.

Cafodd y fenyw ifanc ei disgrifio gan ei theulu a'i gofalwr maeth blaenorol fel merch glyfar, siaradus, teyrngar, hoffus, gwybodus, caredig, gofalgar, cariadus, eofn, cadarn ei meddwl a allai fynegi ei hun yn glir. Roedd yn unigolyn pendant ac yn barod i ddal ei thir a mynegi ei barn: 'She said it how it was, and always thought that she knew best'. Gallai fod yn heriol, yn bengaled ac, ar adegau, yn ymosodol ac yn danllyd. Teimlai fod yn rhaid i barch gael ei ennill a byddai'n gwthio'r ffiniau ar brydiau. Byddai'n ymddiried mewn pobl (yn amhriodol gan mwyaf) ac roedd yn agored i niwed yn gyson gan bobl a sefyllfaoedd. Roedd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â'i theulu a byddai bob amser yn dweud diolch pan fyddai'n teimlo bod pobl (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol) wedi gwrando arni, yn poeni amdani ac yn ei chefnogi. Roedd *'Remember, Family, Loyalty and Trust'* yn eiriau pwysig iddi.

Nid oedd y fenyw ifanc wedi bod mewn addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant yn gyson[7], y tu allan i'r Uned Ddiogel. Ar ôl gadael yr Uned, ymgysylltodd â darparwr hyfforddiant am gyfnod byr wrth geisio cael lle mewn Coleg Addysg Bellach. Roedd newid lleoliad yn aml wedi effeithio ar ei thaith addysgol. Fodd bynnag, roedd y fenyw ifanc yn ddeallus a llwyddodd, gan ddangos ei gallu academaidd pan enillodd radd B mewn Mathemateg, a dangosodd ddawn arbennig ym maes Celf yn yr Uned Ddiogel. Roedd ei sgiliau Iaith Saesneg yn gryf hefyd ac roedd y rhyddiaith o'i llyfr gwaith, a rannwyd â'i chyn-ofalwr maeth, yn dangos hyn. Siaradodd y fenyw ifanc â balchder pan gadarnhaodd ei bod wedi llwyddo yn ei harholiadau TGAU, ac roedd yn falch ei bod wedi gwneud hynny. Roedd y fenyw ifanc yn cyfathrebu'n dda ac roedd hi'n rhyngweithio'n dda â Gyrfa Cymru. Roedd ganddi ddyheadau ar gyfer ei dyfodol, a newidiodd ei llwybrau galwedigaethol yn ystod y llinell amser. Roedd y fenyw ifanc bendant ei barn hefyd wedi gwneud cais i gofrestru â 'Diabetes UK', er mwyn cynnig i fynd i mewn i ysgolion i siarad â phobl ifanc am y cyflwr. Roedd hi'n teimlo y gallai wneud hyn yn dda.

Darparodd Gyrfa Cymru gyngor/arweiniad ar yrfaoedd a gwneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol dan 'Ymgysylltiad/Gwarantiad Ieuenctid'[8] pan ddychwelodd y fenyw ifanc i'w hardal leol a ffurfio rhan o'i Chynllun Llwybr o dan addysg.

Bu Choices[9] yn gweithio gyda'r fenyw ifanc yn ysbeidiol am iddi ddatgelu ei bod wedi camddefnyddio sylweddau (heroin, cocên, ecstasi, 'speed', anffetaminau a chanabis) ers iddi fod yn 14 oed. Yn 2017, dywedodd y fenyw ifanc, 'I got in the wrong crowd and started drugs, drinking and staying out.'

Ni fyddai'r fenyw ifanc bob amser yn manteisio ar y cymorth a'r gefnogaeth roedd gwasanaethau yn eu cynnig iddi. Ni ddangosodd unrhyw ddealltwriaeth o'r hyn a oedd yn ei gwneud yn agored i niwed a dywedodd fod mesurau a roddwyd ar waith i'w chefnogi yn 'unnecessary and draconian'[10]. Roedd hi'n disgwyl y gallai gael gafael ar gymorth ar ei thelerau ei hun ac, yn aml iawn, pan fyddai argyfwng wedi codi. Roedd y fenyw ifanc yn ymateb i bethau'n afresymol ac yn fyrbwyll, gan beri iddi wneud dewisiadau/penderfyniadau sydyn ac amhriodol. Nodwyd y byddai'n gwneud y canlynol yn aml: 'violate rules and boundaries set down by parental or authority figures, such as professionals, who were trying to help her, as she had been used to chaos in the past and found structure too restrictive.'[11]

Cynhaliwyd Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol o dan 'Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008'[12] ar 10 Hydref 2016, o ganlyniad i'r risg gynyddol o niwed sylweddol i'r fenyw ifanc, mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol, mynd ar goll a chamreoli ei diabetes. Rhoddwyd enw'r fenyw ifanc ar y gofrestr o dan y categori cam-drin rhywiol. Ystyriwyd bod hyn yn fesur diogelu ychwanegol a roddwyd ar waith gan yr Awdurdod Lleol er mwyn monitro, adolygu a rheoli'r risgiau. Roedd yn anarferol[13] i berson ifanc fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar yr un pryd ag yr oedd yn Derbyn Gofal, ac roedd hyn yn dangos pa mor ddifrifol roedd swyddogion yr Awdurdod Lleol yn ystyried eu pryderon ac yn ymdrechu i reoli'r risgiau.

Drwy gydol llinell amser yr adolygiad (y tu hwnt i dri chyfnod y fenyw ifanc mewn Llety Diogel) roedd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE), dianc a risg o niwed o ganlyniad i gamreoli ei

[7] Llywodraeth Cymru: Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Youthengagementandprogression@wales.gsi.gov.uk

[8] Llywodraeth Cymru: Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Youthengagementandprogression@wales.gsi.gov.uk

[9] Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol i bobl ifanc yw Choices; maent yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i unrhyw berson ifanc dan 18 oed.

[10] Adolygiad o Lety Diogel, 15 Mawrth 2017

[11] Adroddiad Seiciatrig, 14 Mai 2017

[12] Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

[13] Cofnodion Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol, 10 Hydref 2016

diabetes yn themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro. Yn ogystal, cafwyd sawl methiant mewn lleoliadau gofal maeth a lleoliadau seibiant, lle rhoddwyd y fenyw ifanc gyda'i mam (gan mai dyma'r unig le y byddai'n mynd) er mwyn lliniaru a rheoli'r risg. Roedd tystiolaeth o effaith hirdymor yr esgeulustod/camdriniaeth a brofwyd gan y fenyw ifanc fel plentyn ac roedd hyn yn heriol i weithwyr proffesiynol a oedd yn ceisio dylanwadu ar batrymau hirsefydlog o ymddygiad niweidiol mewn perthynas â'i hiechyd a'i llesiant.

Cynhaliwyd cyfarfodydd Strategaeth Adolygu Amlasiantaethol, ynghyd â thrafodaethau proffesiynol a Chyfarfodydd Grŵp Craidd a dynnodd sylw eto at bryderon parhaus mewn perthynas â chamfanteisio rhywiol, cysylltiad â dynion hŷn, dianc a chamreoli diabetes y fenyw ifanc. Un o argymhellion y Cyfarfod Strategaeth a gynhaliwyd ym mis Awst 2016 oedd y dylid cynnal Cyfarfod Cynllunio Cyfreithiol er mwyn ystyried gwneud cais am Lety Diogel. Dechreuodd hyn gyfres o Gyfarfodydd Cynllunio Cyfreithiol. Gwnaeth yr Awdurdod Lleol gyfanswm o bum cais am Orchymyn Diogel, a chytunodd y Llys ar dri ohonynt. Ar ddau achlysur, gwrthododd y Llys geisiadau gan yr Awdurdod Lleol am Orchmynion Diogel, ar y sail na fodlonwyd y meini prawf. Gwrthododd y Llysoedd y ceisiadau pan oedd yr Awdurdod Lleol o'r farn bod angen mwy o amser ar y fenyw ifanc yn yr Uned Ddiogel a phenderfynodd y Llys nad oedd hynny'n briodol o ystyried pa mor dda roedd y fenyw ifanc wedi ymateb pan oedd yn yr Uned.

Dangosodd hyn y cyfyng-gyngor roedd yr Awdurdod Lleol ynddo gan fod Gorchmynion Diogel yn orchmynion goddefol ag amser cyfyngedig, sy'n golygu mai dim ond tra bydd person ifanc yn parhau i fodloni'r meini prawf y gellir eu cadw. Cadarnhawyd mewn adroddiad seiciatrig a baratowyd ar gyfer y Llys ym mis Mai 2017, fod y fenyw ifanc yn dymuno cael ei rhyddhau o'r Uned Ddiogel er ei bod wedi cael budd o fod yno; ac er y byddai risgiau'n gysylltiedig â hyn, y byddai angen eu rheoli wrth ei rhyddhau yn ôl i'r gymuned, roedd yn well gwneud hyn ar y pryd, mewn ymdrech i wneud y canlynol: 'try and form her co-operation and agreement, rather than keeping her at the Secure Unit further against her will.'[14]

Yn ystod y cyfnodau rhwng y cyfarfodydd hyn, gwnaeth yr Awdurdod Lleol ymdrechion sylweddol i weithio gyda'r fenyw ifanc a'i mam er mwyn rheoli'r risgiau a nodwyd cyn gwneud cais am orchymyn mwy cyfyngol. Hefyd, ystyriwyd cynllun mwy hirdymor mewn perthynas â phen-blwydd y fenyw ifanc yn 18 oed a'r ffaith ei bod hi'n datgan yn gyson ei bod am fyw'n annibynnol heb gyfranogiad gwasanaethau (roedd tystiolaeth o hyn o'r adeg roedd hi'n 16 oed).

Pan roddwyd y fenyw ifanc mewn Llety Diogel ar dri achlysur, gwnaeth gynnydd a chafodd ei chefnogi i reoli ei hiechyd, yn enwedig ei diabetes a phroblemau meddygol cysylltiedig. Roedd yn teimlo'n ddiogel yn yr Uned a rhoddwyd pecyn gofal ar waith yn ystod y cyfnodau hyn, a oedd yn sicrhau ei bod yn cynnal ffocws penodol ar drosglwyddo'n ôl i'r gymuned, pan fyddai'n cael ei gosod yno. Parhaodd y ffocws ar ben-blwydd y fenyw ifanc yn 18 oed a'i dymuniad i fyw'n annibynnol a'r broses drosglwyddo a fyddai'n dod yn sgil hyn.

Pan gafodd y fenyw ifanc ei chartrefu'n ddiogel am y trydydd tro, gwnaeth gais am lety â chymorth yn ardal yr Uned Ddiogel. Hefyd, yn ogystal â'r cymorth parhaus gan yr Awdurdod Lleol, derbyniodd gymorth parhaus gan yr Uned Ddiogel a Swyddog Prosiect yn y llety, ynghyd â mynediad at staff 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Roedd y fenyw ifanc a'r holl asiantaethau a oedd yn gweithio gyda hi ar ddeall ei bod wedi cael ei derbyn ar gyfer y lleoliad tai â chymorth.

Yn dilyn cyfarfod amlasiantaethol ac ar ôl i'r llety arfaethedig dderbyn Cynllun Gofal y fenyw ifanc, rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod Lleol ar 8 Tachwedd 2017 y penderfynwyd gwrthod ei chais. Roedd staff wedi mynegi pryderon y byddai symud i'r lleoliad yn rhy fuan ar ôl ei harhosiad presennol yn y Llety Diogel ac mai bod yn y Llety Diogel oedd y prif reswm ei bod yn llwyddo i ymwrthod â chamddefnyddio sylweddau ar y pryd. Daeth y penderfyniad hwn naw diwrnod cyn pen-blwydd y fenyw ifanc yn 18 oed. Gan nad oedd cynllun wrth gefn ar waith, ychydig iawn o

[14] Adroddiad Seiciatrig, dyddiedig 15 Mai 2017.

amser oedd gan yr Awdurdod Lleol i wneud trefniadau amgen ar ei chyfer. Fodd bynnag, gallai'r fenyw ifanc fod wedi cael ei hailasesu ar gyfer y llety ar ôl cyfnod o ddeufis petai hi wedi rhoi'r cynllun gweithredu arfaethedig ar waith.

Nododd yr Uned Ddiogel fod y fenyw ifanc wedi digalonni ac yn drist, a phenderfynodd ei bod am ddychwelyd i'w hardal leol. O ganlyniad, rhoddodd yr Awdurdod Lleol becyn cymorth a llety ar waith er mwyn iddi ddychwelyd. Gwaethygodd pethau pan ddychwelodd y fenyw ifanc i'w hardal leol, a dechreuodd y pryderon blaenorol ailymddangos eto.

Yn y tri mis yn dilyn pen-blwydd y fenyw ifanc yn 18 oed, trefnodd yr Awdurdod Lleol lety ar ei chyfer mewn fflat drwyddedig yn ei hardal leol, gyda threfniadau monitro a chymorth. Yn ogystal, cysylltodd yr Awdurdod Lleol ag asiantaethau lleol i roi gwybod iddynt fod y fenyw ifanc yn dychwelyd i'r ardal leol, ac y byddai angen eu cymorth arni. O ystyried ei hoed, cydnabu'r asiantaethau ei bod ar y cam trosglwyddo i'r Gwasanaethau Oedolion ac y byddai'r cymorth yn cynnwys cynllunio ar gyfer trosglwyddo fel rhan o'r trefniadau a roddwyd ar waith ar ei chyfer. Rhoddwyd y trefniadau trosglwyddo ar waith am dri mis yn y lle cyntaf. Dyma'r gwasanaethau a oedd yn darparu ac yn cynnig cymorth: yr Awdurdod Lleol, Choices/Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Arbenigol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, Nyrs Diabetes Arbenigol a'r feddygfa.

Trefnwyd dau ymweliad y dydd â'r fflat gyda'r bwriad o weld y fenyw ifanc wyneb yn wyneb. Bu'r Heddlu yn cefnogi'r gwaith monitro hwn hefyd drwy anfon dau Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu i'r fflat yn ystod cyfnod y Nadolig 2017. Fodd bynnag, nid oedd y fenyw ifanc yn awyddus i ymgysylltu â'r gwasanaethau a, chyn ei marwolaeth, bu'n datgan nad oedd am gael cymorth gan wasanaethau ac yn gwrthod cwrdd/ymgysylltu â nhw.

Yn ogystal, yn ystod cyfnod byr iawn o amser, ailymddangosodd y risgiau blaenorol o gamddefnyddio sylweddau, cysylltu â dynion hŷn (yn lleol ac ar-lein), CSE a chamreoli ei diabetes, a gwaethygodd y problemau hyn. Hefyd, roedd yn ymddangos bod pobl yn ymweld â'i fflat yn gyson. Rhoddodd pobl ifanc yn yr ardal wybodaeth i weithwyr proffesiynol ac, o ganlyniad, cynhaliwyd trafodaethau cefnogol â'r fenyw ifanc gan bwysleisio goblygiadau posibl ei gweithredoedd yn y tymor hwy. Roedd teulu'r fenyw ifanc yn bryderus, yn ogystal â'i gofalwr maeth blaenorol.

Ychydig cyn ei marwolaeth gynamserol, roedd y fenyw ifanc wedi dweud ei bod am roi'r gorau i'w thenantiaeth a symud i Loegr; dywedodd ei bod wedi dod o hyd i lety a swydd yno. Cadarnhawyd hyn mewn gohebiaeth rhwng y fenyw ifanc a gweithwyr proffesiynol yn ystod cyfnod y Nadolig/Blwyddyn Newydd 2017, a chredwyd bod y fenyw ifanc wedi bod yn Lloegr yn union cyn ei marwolaeth.

Llais y Fenyw Ifanc

Roedd y fenyw ifanc yn fwy na pharod i fynegi ei barn i weithwyr proffesiynol. Disgrifiodd ei sbardunau yn ei llyfr gwaith, sef: ‘arguing with my family, being bullied and made fun of, ending relationships and saying “bye” and people making comments about my weight.’ Soniodd hefyd am y pethau y gallai pobl eu gwneud i'w helpu hi, sef: ‘talk to me and ask me how I am feeling, phone my mental health team to get me some help and support, let me know that they are doing this, or encourage me to do this.’

Uwchlaw pob dim, roedd y fenyw ifanc yn credu'n gryf bod angen ennill parch. Yn y Digwyddiad Dysgu i ymarferwyr, nododd gweithiwr proffesiynol a oedd wedi gweithio gyda'r fenyw ifanc ers iddi fod yn 13 oed ei bod bob amser yn ymateb yn well i weithwyr proffesiynol pan fyddent yn rhoi eu pin ysgrifennu i lawr ac yn siarad â hi.

Dywedodd teulu'r fenyw ifanc: '[she] would test professionals to see if she could respect them. When she said she did not want support, she would then take up all of the support that was offered.' '[She] was not someone that you wanted to be on the wrong side of. She said it as it was. What she wanted was to be loved'.

Yn ddiweddarach yn ei bywyd, cofnododd y fenyw ifanc nad oedd hi'n teimlo bod pobl yn cyfathrebu â hi. Ar achlysur blaenorol, nododd y dymuniad canlynol: 'for a Social Worker to do what they were supposed to do'.

Roedd tystiolaeth glir bod cymorth eiriolwr wedi cael ei gynnig i'r fenyw ifanc a'i bod wedi'i dderbyn ar sawl achlysur. Roedd hyn yn cynnwys cael eiriolwr ar gyfer tri adolygiad Llety Diogel. Fodd bynnag, nid oedd yn glir a oedd eiriolaeth wedi'i chynnig ar bob cam wrth adolygu ei chynlluniau.

Drwy gydol llinell amser yr adolygiad, roedd y fenyw ifanc yn teimlo na ddylai fod yn Derbyn Gofal mwyach ac mai ei hymgysylltiad â'r Gwasanaethau Cymdeithasol oedd wedi achosi ei holl broblemau. Gofynnodd dro ar ôl tro i asiantaethau adael llonydd iddi am ei bod yn gallu gofalu amdani ei hun ac roedd hi'n teimlo ei bod wedi profi y gallai fyw yn annibynnol yn ei ffordd ei hun. Ar ôl ei phen-blwydd yn 16 oed, ni ystyriodd y fenyw ifanc ei bod o dan unrhyw Orchymyn ac, o ganlyniad, nad oedd yr Awdurdod Lleol yn gallu dylanwadu ar yr hyn roedd hi'n ei wneud mewn unrhyw ffordd. Roedd hi'n credu'n gryf mai ei dewis hi oedd â phwy roedd hi am dreulio ei hamser a'r hyn roedd hi'n ei wneud gyda'i bywyd.

Asiantaethau a fu'n gweithio gyda'r fenyw ifanc

Mae'r asiantaethau perthnasol wedi'u rhestru ar dudalen 26.

Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys tynnu sylw at ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol.

Mae'r ymarfer a'r dysgu sefydliadol a nodwyd wedi'u tynnu o'r elfennau canlynol o'r adolygiad:

- Llunio llinell amser amlasiantaethol gyfun a dadansoddiad asiantaethol;
- Dau Ddigwyddiad Dysgu;
- Safbwynt teulu'r fenyw ifanc a safbwynt cyn-ofalwr maeth;
- Trafodaethau yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu;
- Ymgynghoriad uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol;
- Adolygu cofnodion achos;
- Dadansoddiad Adolygydd Arweiniol ac Ail Adolygydd/Cadeirydd.

Gwaith Amlasiantaethol mewn Partneriaeth, Cyfathrebu a Chadw Cofnodion

- Cefnogwyd y fenyw ifanc gan ystod gynhwysfawr o asiantaethau a fu'n cydweithio'n dda mewn amrywiaeth o fforymau. Roedd prosesau cadw cofnodion ac adrodd yn gryf ac yn cydymffurfio â chanllawiau diogelu statudol a phrotocolau asiantaethau. Cafwyd anhawster wrth geisio cael y fenyw ifanc i ymgysylltu â'r cymorth mewn modd agored, gonest a chyson. Roedd hi'n bendant ei bod am fyw'n annibynnol ond ni fyddai'n ymgysylltu â'r cynlluniau na'r cymorth a oedd ar waith i'w chynorthwyo i wneud hynny. Dywedodd y fenyw ifanc, yn ei geiriau ei hun, "[I can] look after myself."

- Roedd tystiolaeth gref o drafodaethau proffesiynol a gwneud penderfyniadau amlasiantaethol. Fodd bynnag, o ganlyniad i natur y fenyw ifanc, roedd y gwaith yn aml yn adweithiol ac yn ymatebol yn hytrach na blaengar, arloesol a rhagweithiol. Ni chafwyd

llawer o lwyddiant wrth geisio cael y fenyw ifanc i ymgysylltu am gyfnod estynedig nac wrth geisio ei chael i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol nad oedd hi am siarad â nhw.

- Sicrhawyd cymaint o gysondeb â phosibl o ran y staff asiantaeth a oedd yn cefnogi'r fenyw ifanc. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod y llinell amser, cafwyd newid yn y Gweithwyr Cymdeithasol ac roedd y fenyw ifanc yn ffafrio rhai yn fwy nag eraill.

- Yn sgil y Digwyddiadau Dysgu a gynhaliwyd i weithwyr proffesiynol, daeth mater cyfathrebu i'r amlwg ymhlith asiantaethau mewn perthynas â dod â'r achos i ben yn dilyn marwolaeth y fenyw ifanc. Gan na chafwyd cwêst ar ei chyfer nac unrhyw ohebiaeth bellach o ran achos y farwolaeth, roedd gweithwyr proffesiynol a'i chyn-ofalwr maeth yn teimlo bod pethau wedi cael eu gadael yn anorffenedig. Roedd yn arbennig o anodd iddynt, o ystyried bod llawer o sïon ynghylch achos ei marwolaeth a oedd yn awgrymu bod anfadwaith yn bosibilrwydd. Roedd hyn wedi peri llawer o straen i'r gweithwyr proffesiynol ac roedd yn anodd iddynt ymdopi â'r cyfan. Roeddent yn gobeithio y byddai'r Digwyddiad Dysgu, fel rhan o'r broses adolygu, yn rhoi terfyn ar y mater iddynt. Yn hyn o beth, roedd wedi cymryd llawer gormod o amser i'r mater ddod i ben i'r gweithwyr proffesiynol.

Arferion Da a Nodwyd

Yr ymdrechion gorau, y cymorth a'r gwaith ymgysylltu parhaus a roddwyd ar waith gan asiantaethau er mwyn gweithio gyda'r fenyw ifanc; er gwaethaf yr heriau parhaus a chred y fenyw ifanc nad oedd angen eu cymorth/cyfranogiad arni ac nad oedd eu heisiau ychwaith.

Dyfalbarhad yr Awdurdod Lleol (tri achlysur) i gael yr un darparwr Llety Diogel a blaenoriaethu ceisiadau'r fenyw ifanc hyd yn oed ar ôl iddynt gael eu gwrthod gan y Llys.

Y trefniadau trosglwyddo amlasiantaethol a roddwyd ar waith ar gyfer y fenyw ifanc ar ôl iddi adael yr Uned Ddiogel (yn dilyn ei phen-blwydd yn 18 oed) am dri mis.

Safbwynt y Teulu/Gofalwr Maeth

Roedd aelodau o deulu'r fenyw ifanc yn teimlo ei bod wedi cael mwy o gymorth gan asiantaethau (o gymharu ag aelod arall o'r teulu). Roedd y teulu yn deall ac yn cydnabod y problemau a'r ymddygiadau roedd yn eu dangos. Fodd bynnag, roedd pryder nad oedd asiantaethau yn gweithredu ar wybodaeth a dderbyniwyd bob amser pan oedd hi'n byw'n annibynnol. Roeddent hefyd yn ymwybodol o sut gallai'r fenyw ifanc brofi'r ffiniau gyda gweithwyr proffesiynol a'i bod yn gwneud hynny'n fwriadol.

Roedd aelodau o'r teulu yn teimlo bod y Gweithwyr Cymdeithasol a oedd yn gweithio gyda'r fenyw ifanc yn newid yn aml ac nad oedd yn glir bob amser pwy oedd yn gweithio gyda hi, bod rhywun yn gwrando ar eu pryderon na'u bod yn cael ateb plaen. Yn dilyn marwolaeth y fenyw ifanc, roeddent yn teimlo nad oeddent erioed wedi gweld cynifer o Weithwyr Cymdeithasol mewn un ystafell a bod y system wedi gadael y fenyw ifanc i lawr.

Gwersi i'w dysgu

Lle y bo'n bosibl, dylid cael cysondeb wrth glustnodi gweithwyr ar draws gwasanaethau/asiantaethau a chyfathrebu'n glir â theuluoedd os gwneir newidiadau.

Ar gyfer uwch-bartneriaid arweiniol amlasiantaethol (yn arbennig yr Heddlu), ystyried y mater ehangach o ddod â'r achos i ben i weithwyr proffesiynol o ran rhoi gwybod iddynt am ganlyniad post-mortem, er mwyn sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol dan sylw yn cael y cymorth goruchwyliol angenrheidiol yn brydlon.

Awdurdod Lleol i weithredu wrth gyhoeddi Protocol Proffesiynol Amlasiantaethol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer rhannu gwybodaeth pan fydd person ifanc 18-25 oed yn marw. (Mae'r protocol hwn wedi cael ei dreialu mewn Awdurdod Lleol cyfagos a chaiff ei gyflwyno i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i'w fabwysiadu mewn cyfarfod yn y dyfodol).

Awdurdodau Lleol i rannu gwybodaeth am Blant sy'n Derbyn Gofal yn ehangach ag asiantaethau partner, yn enwedig ar adeg trosglwyddo; yn bennaf mewn perthynas ag adrannau Addysg a Gyrfa Cymru drwy eu cynnwys mewn adolygiadau a chynlluniau trosglwyddo lle y bo angen.

Cydberthnasau Teulu Cymhleth

- Roedd cydberthynas y fenyw ifanc â'i theulu yn gymhleth, yn anghyson ac, ar adegau, fe'i disgrifiwyd yn danllyd. Roedd adegau pan oedd mam y fenyw ifanc ofn ei merch, ac roedd y fenyw ifanc wedi bygwth ei lladd ar ddau achlysur. Yn dilyn hynny, roedd y fam wedi celu gwybodaeth bwysig rhag asiantaethau gan ei bod ofn y byddai ei merch yn dial arni.

- Er gwaethaf hynny, roedd teulu yn bwysig i'r fenyw ifanc ac roedd yn bendant ei bod am gadw cysylltiad â'i mam a'i hanner brodyr/chwiorydd. Fodd bynnag, roedd materion cymhleth o ran trefniadau cyswllt â'i hanner brodyr/chwiorydd. Siaradodd y fenyw ifanc am ei theimladau ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyn o beth. Esboniodd nad oedd hi'n gwybod yn iawn beth oedd y rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed ynghylch cyswllt â'i theulu.

- Rhoddwyd ystyriaeth briodol i ddymuniadau'r fenyw ifanc o ran cael cyswllt dan oruchwyliaeth a heb oruchwyliaeth â'i mam. Gwelwyd tystiolaeth y gwnaed asesiadau risg priodol pan wnaeth y fenyw ifanc gais am gyswllt. Roedd hefyd yn galonogol nodi y glynwyd wrth y Lleoliad â Rheoliadau Rhieni yn unol â'r Cynllun Amddiffyn Plant.

- Cafodd hanes blaenorol y teulu ei ddogfennu a'i ystyried ym mhob asesiad, adolygiad a chynllun, gan gynnwys i ble y cafodd y fenyw ifanc ei dychwelyd ar ôl cyfnodau pan fyddai wedi mynd ar goll (at ei mam). Defnyddiwyd 'Contractau Disgwyliadau' a chafodd y lleoliadau eu monitro'n agos. Cynhaliwyd cyfarfodydd adolygu yn briodol a chynhaliwyd gwiriadau lles hefyd. Er gwaethaf y risgiau ar yr achlysuron hyn, roedd yr Awdurdod Lleol yn teimlo bod aros gyda'i mam er lles pennaf y fenyw ifanc os na fyddai'n cydsynio i fod mewn gofal maeth.

- Weithiau byddai'r fenyw ifanc yn dewis peidio â mynd i'w chyfarfodydd adolygu, ond byddai bob amser yn cyfrannu atynt (neu'n cael y cyfle i wneud hynny) ymlaen llaw. Roedd tystiolaeth bod ei mam wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd ac wedi cyfrannu, gan rannu pryderon am y fenyw ifanc. Roedd cyfranogiad y teulu yn bwysig ac ymdrechodd yr Awdurdod Lleol i gynnal hyn, gan gynnwys cysylltu â thad y fenyw ifanc

pan gynhaliwyd Cyfarfodydd Cynllunio Cyfreithiol er nad oedd y fenyw ifanc wedi'i weld ers iddi fod yn 6 oed.

- Yn ogystal, rhoddwyd trefniadau cyswllt â chymorth ar waith gyda'r teulu pan oedd y fenyw ifanc mewn Llety Diogel, a phan symudodd i fyw'n annibynnol.

Arferion Da a Nodwyd

Cymorth parhaus yr Awdurdod Lleol i adolygu a hwyluso cyswllt rhwng y fenyw ifanc a'i theulu, hyd yn oed pan oedd yn yr Uned Ddiogel. Pan nad oedd yn bosibl hwyluso cyswllt yn uniongyrchol, byddai'n cael ei gynnal drwy'r gweithwyr proffesiynol priodol, a darparwyd gwybodaeth anuniongyrchol a oedd yn ddefnyddiol i'r fenyw ifanc.

Y fframwaith 'Signs of Safety'[15] a roddwyd ar waith gan yr Awdurdod Lleol a'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i staff yr Awdurdod Lleol a staff asiantaethau partner ar hyn o bryd i roi'r fframwaith ar waith a llywio eu hymarfer. Mae'r model yn ceisio gwella rhwydweithiau teulu a chymorth i bobl ifanc.

Safbwynt y Teulu a'r Gofalwr Maeth

At un o'i hanner chwiorydd roedd y fenyw ifanc agosaf, a byddai'n cadw mewn cysylltiad â hi hyd yn oed pan fyddai'n rhedeg i ffwrdd. Nid oedd ei hanner chwaer yn deall pam na allai'r fenyw ifanc fod wedi byw gyda hi pan adawodd yr Uned Ddiogel.

Dywedodd mam y fenyw ifanc wrth yr Adolygydd Annibynnol Arweiniol ei bod wedi cyfaddef i'w phlant ei bod hi wedi gwneud llanast a'i bod yn teimlo eu bod wedi'u gadael i lawr yn y gorffennol. Fodd bynnag, mynychodd gyfarfodydd yn rheolaidd gan ddatgan ei phryderon am ei merch yn agored.

Roedd mam y fenyw ifanc am fod yn rhan o fywyd ei merch, er y gallai pethau fod yn gymhleth rhyngddynt. Ar adegau, dywedodd fod ofn ei merch arni a'i bod yn teimlo'n ddi-rym am nad oedd yn gallu rheoli dicter ac ymddygiad hunanddinistriol ei merch.

Gwersi i'w dysgu

Dylai'r Awdurdod Lleol barhau i roi'r fframwaith 'Signs of Safety' ar waith a hwyluso hyfforddiant 'Signs of Safety' i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr.

Wrth dderbyn cymhlethdod cynhenid llawer o drefniadau cyswllt ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, dylai'r Awdurdod Lleol geisio sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu diweddaru a'u bod yn deall y trefniadau hynny a'r rhesymau drostynt.

Lleoliadau Maeth/Trefniadau Seibiant

- Dangosodd yr holl ofalwyr maeth a fu'n gysylltiedig â'r fenyw ifanc ymrwymiad gwirioneddol i ofalu amdani. Ar ddechrau'r llinell amser, roedd y fenyw ifanc wedi symud

[15] Turnell Andrew ac Edwards Steve: Signs of Safety (A solution and Safety Orientated Approach to Child Protection Casework), UDA, WW Norton & Company, 1999.

o'r ardal leol gyda'i theulu maeth i Loegr a chyfeiriwyd at hyn, yn y wybodaeth gyd-destunol ynghylch yr adolygiad, fel ei chyfnod mwyaf sefydlog.

- Fodd bynnag, fel gyda'r rhan fwyaf o'r lleoliadau yn y llinell amser, daeth y lleoliad i ben am fod y fenyw ifanc yn dymuno gadael. Mewn rhai achosion, yr ardal ble roedd y gofalwr maeth yn byw, yn hytrach na'r lleoliad ei hun, ddylanwadodd ar benderfyniad y fenyw ifanc.

- Roedd yr holl ofalwyr maeth yn ymrwymedig iawn i gefnogi'r fenyw ifanc gyda'i diabetes a dangosodd pob un ohonynt eu bod wedi ymgysylltu â'r Gwasanaethau Iechyd pan oedd angen cymorth arnynt. Gwnaethant hefyd wneud ymdrech i ddysgu, hyfforddi ac ymgysylltu â'r fenyw ifanc, gan sylweddoli pa mor bwysig oedd rheoli'r diabetes iddi. Serch hynny, honnodd y fenyw ifanc ar lafar ei bod yn cael ei rhoi gyda gofalwyr ifanc nad oeddent yn gwybod am ddiabetes ac ystyriodd fod hyn oherwydd diffyg 'dyletswydd gofal'.

- Yn y Digwyddiad Dysgu i reolwyr, nodwyd bod diffyg lleoliadau maeth yn yr ardal leol ar gyfer pobl ifanc mwy heriol, yn enwedig wrth i berson ifanc agosáu at 18 oed.

- Nid oedd trefniad 'Pan fydda i'n barod'[16] ar gael i'r fenyw ifanc gyda'r gofalwr maeth o'i dewis, gan fod y gofalwr maeth yn gofalu am rywun arall, ac roedd hyn yn siom iddi. Fodd bynnag, llwyddwyd i ymdopi â'r sefyllfa yn dda ac mewn ffordd fel ei bod yn bosibl cynnal y gydberthynas rhwng y fenyw ifanc a'r gofalwr maeth.

- Roedd gan yr Awdurdod lleol Dîm Lleoliadau Teulu cryf a oedd yn cefnogi'r gofalwyr maeth yn dda iawn yn ystod a'r tu allan i oriau, gan sicrhau bod ffiniau priodol yn cael eu cynnal a bod y gofalwyr maeth yn cael eu diogelu a'u cefnogi.

- Roedd 'Contractau Disgwyliadau' yn glir, wedi'u hysgrifennu'n dda a gwnaed defnydd effeithiol ohonynt mewn perthynas â lleoliadau gyda'r fam a gofalwr maeth. Sicrhawyd bod pob parti yn eu llofnodi a chawsant eu defnyddio fel dogfennau 'byw' er mwyn monitro cynnydd. Cyfeiriwyd atynt hefyd mewn adolygiadau ac mewn dogfennaeth gynllunio gyfreithiol. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd cyfeiriad at y risg o CSE yng Nghynllun Gofalu Diogel y gofalwr maeth, ar adeg pan oedd yn hysbys bod y fenyw ifanc mewn perygl.

Arferion Da a Nodwyd

Cymerodd yr holl ofalwyr maeth ran mewn hyfforddiant i gefnogi anghenion iechyd cymhleth y fenyw ifanc.

Safbwynt y teulu

Roedd gan y teulu farn gadarnhaol o ran y lleoliadau gofal maeth a ddarparwyd ar gyfer y fenyw ifanc.

Roedd y teulu wedi disgwyl y byddai'r fenyw ifanc yn dychwelyd at ofalwr maeth penodol ar ôl cael ei rhyddhau o'r Uned Ddiogel.

[16] Pan fydda i'n barod - Canllaw Arfer Da, Mawrth 2016. Llywodraeth Cymru 28047.

Gwersi i'w dysgu

Pwysigrwydd bod gan Awdurdodau Lleol ddewis o leoliadau gofal maeth lleol er mwyn diwallu anghenion cymhleth pobl ifanc heriol yn lleol.

Uwchgyfeirio a Herio Proffesiynol

- Ymddengys fod yr holl asiantaethau wedi ymddwyn gyda'r bwriadau gorau, gan ymdrechu i gadw'r fenyw ifanc yn ddiogel a gwrando ar ei theimladau a'i dymuniadau ar yr un pryd. Roedd achlysuron pan nad oedd gweithwyr proffesiynol yn unfrydol eu barn o ran camau gweithredu ar ei chyfer. Fodd bynnag, nid oedd hyn i'r fath raddau fel bod yn rhaid defnyddio'r protocol datrys anghydfod - 'Protocol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol'[17].

- Roedd staff iechyd yn hyderus wrth herio mewn cyfarfodydd a gwnaethant ofyn i gyfarfodydd amlasiantaethol gael eu cynnal, er mwyn rhannu eu pryderon o ran y risgiau i'r fenyw ifanc a'r diffyg cynnydd wrth geisio cael Gorchymyn Diogel ar ei chyfer.

- Cydnabu'r Swyddog Adolygu Annibynnol, wrth fyfyrio, y gallai fod wedi herio un o'r penderfyniadau i beidio â gwneud cais am Orchymyn Diogel. Roedd ei amharodrwydd i wneud hynny ar y pryd oherwydd ei ddiffyg profiad fel Swyddog Adolygu Annibynnol a'i ddiffyg profiad o ddefnyddio protocol uwchgyfeirio nad oedd wedi'i brofi ar y pryd.

- Mae'r Awdurdod Lleol bellach wedi atgyfnerthu ei broses uwchgyfeirio ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, ers 2017.

- Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol, a wnaeth barhau yn unigolyn cyson i'r fenyw ifanc, yn werthfawr, yn gefnogol ac yn hawdd mynd ato. Roedd y gweithwyr proffesiynol yn gwerthfawrogi rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol a'u rheolwyr llinell ac uwch-reolwyr o ran darparu cymorth a, lle y bo'n briodol, her broffesiynol. Mae'r syniad o edrych ar rywbeth o'r newydd wrth wraidd ymagwedd yr Arglwydd Laming lle dadleuodd fod 'high quality supervision is critical to good practice'[18]. 'It is through supervision that there is an opportunity to challenge assumptions and judgements and to agree plans of action'[19].

Arferion Da a Nodwyd

Cysondeb y Swyddog Adolygu Annibynnol drwy gydol gofal y fenyw ifanc.

Y camau gweithredu y mae'r Awdurdod Lleol wedi'u cymryd ers 2017 er mwyn atgyfnerthu'r broses uwchgyfeirio ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol.

[17] Protocol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol
[18] Laming, H (2009) The protection of Children in England. TSO
[19] Laming, H (2009) The protection of Children in England. TSO

Safbwynt y Teulu

Roedd y teulu o'r farn y bu diffyg trefniadau diogelu mewn perthynas â'r fenyw ifanc, gan nodi: "We point the finger at the lack of safeguarding, you can put rules and regulations in place, but you have to follow them, this is the reason that safeguarding audits are in place. They need to be adhered to".

Gwersi i'w dysgu

Dylai'r holl staff deimlo eu bod yn gallu defnyddio'r broses datrys anghydfod, neu uwchgyfeirio anghytundeb â phenderfyniad i lefel uwch, a darparu her broffesiynol ar draws asiantaethau pan na fyddant yn teimlo bod y canlyniadau yn gywir i berson ifanc neu os nad yw llwybr gweithredu yn diwallu ei anghenion neu os na fydd yn gwneud hynny.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)[20]

- Bu pryderon am nifer o flynyddoedd bod y fenyw ifanc yn agored i niwed oherwydd CSE. Roedd ei natur agored i niwed yn gysylltiedig â'r materion canlynol: cam-drin neu esgeuluso gan riant/gofalwr/aelod o'r teulu; hanes o dderbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol; cydberthnasau teuluol yn chwalu; a diffyg hunan-barch. Roedd ymddygiad y fenyw ifanc yn ystod llinell amser yr adolygiad yn cynnwys dangosyddion risg sylweddol, a oedd yn cynnwys: cyfnodau o fynd ar goll dros nos neu am gyfnodau hwy; cysylltiadau â dynion/cariadon hŷn; camdriniaeth gorfforol/emosiynol a datgelu ymosodiad rhywiol/corfforol ac wedyn tynnu'r honiadau yn ôl.

- Drwy gydol y llinell amser, gwnaeth y fenyw ifanc honiadau mewn perthynas â cham-drin ac ymosodiadau rhywiol. Ymchwiliwyd i'r achosion hyn yn llawn ar ddau achlysur ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Ystyriwyd yn y Digwyddiadau Dysgu sut y cyflëwyd y wybodaeth hon i'r fenyw ifanc a'r effaith arni. Yr hyn na chafodd ei ystyried y tu allan i'r adroddiadau iechyd oedd y wybodaeth gyd-destunol hanesyddol ehangach a all fod wedi achosi'r honiadau. Cyfeiriwyd at yr honiadau hyn yn yr adroddiad seiciatrig a gwblhawyd ar gyfer y Llys Teulu yn 2017 a theimlwyd y gallai'r fenyw ifanc fod wedi bod yn cyfeirio at brofiadau diweddar, ond hefyd at ddigwyddiadau yn y gorffennol.

- Gwnaeth y fenyw ifanc honiadau yn dilyn cyfnodau o fod ar goll hefyd, ond ni chafodd y rhain eu ffurfioli.

- Roedd y fenyw ifanc yn agored i broses MACSE[21] ac roedd ganddi SERAF (Fframwaith Asesu Risg Camfanteisio Rhywiol) wedi'i gwblhau a oedd yn nodi risg sylweddol. Yn unol â 'Gweithdrefnau Cymru Gyfan ar gyfer Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol' a 'Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio

[20] Mae cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu gorfodi neu ddylanwadu ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath ar gam-drin rhywiol yn gyfnewid am ryw fath o daliad a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae natur ddiymgeledd y person ifanc a'r broses hudo a ddefnyddir gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau yn eu gwneud yn ddi-rym i adnabod natur gamfanteisiol y berthynas ac i roi caniatâd gwybodus. Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan – Protocol Cymru Gyfan – Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol, Tachwedd 2013.

[21] MACSE (Tîm Amlasiantaethol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)

Rhywiol' Barnardo's Cymru[22], cynhaliwyd cyfarfodydd Strategaeth Amlasiantaethol priodol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn effeithiol rhwng partneriaid amlasiantaeth er mwyn cytuno ar gynllun diogelwch.

- Atgyfnerthwyd MACSE yn yr Awdurdod Lleol, a chaiff cyfarfodydd eu cynnal bob chwarter. Mae aelod arweiniol o staff yn yr Awdurdod Lleol ar gyfer CSE hefyd sy'n ffynhonnell o arbenigedd ac ar gael i arwain, cynghori a chefnogi ei gydweithwyr.

- Roedd yr Heddlu yn ymwybodol o gysylltiad y fenyw ifanc â CSE ar sawl achlysur. Lle y bo'n briodol gwneud hynny, gwnaeth swyddogion arfer eu pwerau o dan Adran 46 o Ddeddf Plant 1989 pan roeddent yn teimlo bod angen ei hamddiffyn rhag niwed sylweddol tebygol. Dilynwyd y camau gweithredu hyn yn briodol bob amser ag atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant yn unol â 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008'[23]. Yna cynhaliwyd cyfarfodydd strategaeth yn fwy cyson, yn unol â'r gweithdrefnau.

- Y broblem a oedd yn codi i'r gwasanaethau oedd wrth iddynt amddiffyn y fenyw ifanc rhag un cyflawnwr posibl, byddai'n meithrin cysylltiadau a chydberthnasau newydd â chyflawnwyr posibl eraill.

- Roedd y 'Contract Disgwyliadau' rhwng y fenyw ifanc a'i mam yn cynnwys rheoli'r risg o CSE. Roedd hyn yn heriol i'r fam ac roedd yn dibynnu ar gymorth helaeth gweithwyr proffesiynol pan fyddai sefyllfaoedd a materion yn codi.

- Roedd cyfarfodydd cynllunio cyfreithiol, ar y cyd â fforymau cynllunio gofal eraill, hefyd wedi'u cynnal er mwyn amddiffyn y fenyw ifanc o ystyried ei risg sylweddol o CSE.

- Roedd hawl gan y fenyw ifanc i gael gwasanaethau ôl-ofal o dan 'Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)'. Roedd y broses Cynllunio Llwybr, y Panel Anghenion Cymhleth a'r Cynllun Amddiffyn Plant oll yn cydnabod pa mor agored oedd y fenyw ifanc i CSE.

Arferion Da a Nodwyd

Y trefniadau a'r cymorth a roddwyd ar waith gan yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu, a oedd yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol gan y Gweithdrefnau Cymru Gyfan, a'u defnydd cryf o fframweithiau MACSE a SERAF.

Cyflwyno a phenodi arweinydd CSE yn yr Awdurdod Lleol er mwyn cynnig cymorth ychwanegol i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr.

Safbwynt y Teulu a'r Gofalwr Maeth

Teimlai'r teulu nad oedd llawer o Swyddogion yr Heddlu nad oeddent yn adnabod y fenyw ifanc. Roeddent yn cydnabod y risg o CSE iddi, ac yn bryderus am hyn 'She would answer her phone when she went missing, but would not tell you where she was, unless she was as

[22] Barnardo's Cymru 2007 – Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol, Hydref 2007, Sam Clutton a Jan Coles.
[23] Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

high as a kite on weed.' Gwnaethant ddisgrifio'r fenyw ifanc fel 'magned' i'r dynion hyn. Nid oeddent yn gwybod ble'r oedd hi'n cwrdd â nhw.

Gwersi i'w dysgu

Datblygu arferion gorau ymhellach gan sicrhau bod yr ymarferydd arweiniol neu'r rheolwr ar gyfer CSE yn rhoi gwybod i asiantaethau partner sut y gall eu gwasanaeth gyfrannu at waith i leihau risg a Chynllun Diogelu.

Dylai cyfarfodydd amlasiantaethol proffesiynol barhau er mwyn monitro'r trefniadau diogelu ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu risg o niwed sylweddol pan fyddant yn cyrraedd 18 oed. Dylai pob gofalwr maeth gael Cynllun Gofal Mwy Diogel ar gyfer cyfnod y lleoliad fel arfer dda.

Mynd ar Goll / Rhedeg i Ffwrdd / Ymddygiad Peryglus

- Roedd hanes y fenyw ifanc o redeg i ffwrdd yn golygu ei bod yn wynebu risg o niwed sylweddol o ganlyniad i'r canlynol: CSE; cyfeillion amhriodol; camfanteisio ariannol; defnyddio cyffuriau; a chamreoli ei diabetes, a oedd yn peryglu ei bywyd. 'Established research and practice evidence have demonstrated a strong correlation between children and young people going missing and being at risk of sexual exploitation.'[24]

- Dechreuodd y fenyw ifanc redeg i ffwrdd tua diwedd ei chyfnod hirdymor a sefydlog mewn lleoliad maeth, lle mae'n bosibl y defnyddiodd hyn fel ymgais i ddod â'r lleoliad i ben.

- Mewn cyfarfod Strategaeth a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2016, nodwyd bod y fenyw ifanc wedi mynd ar goll ar bedwar achlysur gyda dau gyfnod ym mis Mawrth 2016. Mewn cyfarfod Strategaeth pellach a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2016, cofnodwyd pum achos arall o'r fenyw ifanc yn mynd ar goll, gan ddangos bod ei hymddygiad wedi gwaethygu a'r risgiau cysylltiedig a oedd yn ei hwynebu.

- Yn aml byddai'r Heddlu yn dod o hyd iddi gyda dynion hŷn ac mewn lleoliadau eithaf pell o'i chartref weithiau. Ar bedwar o'r pum achlysur, roedd y fenyw ifanc wedi mynd ar goll o leoliad gofal maeth. Roedd 'Contractau Disgwyliadau' a oedd ar waith yn gwbl glir o ran ble y dylai'r fenyw ifanc fyw ac os na fyddai'n dod adref ar ôl 21:00 neu os byddai'n gadael y tŷ rhwng 21:00 a 07:00, heb gytundeb y Gwasanaethau Cymdeithasol, dylai'r gofalwr maeth gysylltu â'r Heddlu.

- Roedd un achos hefyd pan aeth y fenyw ifanc ar goll ddwywaith mewn un cyfnod o 24 awr. Ar y ddau achlysur daethpwyd o hyd iddi gyda dau ddyn hŷn. Drwy weithio amlasiantaethol, cyflwynwyd 'Hysbysiad Rhybudd Herwgydio Plant' (CAWN) gan yr Heddlu.

- Nododd y llinell amser a'r Digwyddiad Dysgu i reolwyr o'r 13 achos pan aeth y fenyw ifanc ar goll, dylid bod wedi cael pedair ôl-drafodaeth gyda Llamau, ond dim ond un a

[24] Smeaton, E (2003) 'Running from hate to what you think is love: The relationship between running away and child sexual exploitation.' Barnardo's, Barkingside.

gafwyd gan fod y fenyw ifanc naill ai wedi bod mewn Llety Diogel neu mewn lleoliad maeth y tu allan i'r sir.

- Nid oes gan Wasanaeth Ôl-drafod Llamau gyfrifoldeb contractiol i ymgysylltu â phobl sydd ar goll pan gânt eu rhoi mewn Llety Diogel neu mewn lleoliad y tu allan i ardal Heddlu Dyfed Powys. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd i gynnal sgwrs briodol ar yr amser cywir gyda'r fenyw ifanc. Pan fydd pobl ifanc yn dychwelyd ar ôl cyfnod o fod ar goll, mae'n bosibl y byddant yn teimlo'n bryderus ac, fel yn achos y fenyw ifanc, yn gyndyn i ddatgelu eu teimladau ynghylch y cyfnod o fod ar goll. Mae'n bosibl y bydd ganddynt bryderon nad ydynt yn amlwg, ac efallai y byddant am ddychwelyd i'r lleoedd a/neu at y bobl maent wedi bod gyda nhw yn y dyfodol, neu'n teimlo bod yn rhaid iddynt wneud hynny. Efallai y byddant hefyd ofn i'r cyflawnwyr ddial arnynt. Fel yn yr achos hwn, datgelodd y fenyw ifanc fanylion yn ddiweddarach i'w theulu a/neu weithwyr proffesiynol, yn hytrach na'r Heddlu.

Arferion Da a Nodwyd

Defnyddio 'Contractau Disgwyliadau' mewn perthynas â chyfnodau o fod ar goll a'r gwiriadau lles a gynhaliwyd.

Gwersi i'w Dysgu

Dylai'r Awdurdod lleoli, yr Heddlu a/neu bartneriaid amlasiantaethol sicrhau y gwneir trefniadau ôl-drafod priodol ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd ar goll ac sy'n cael eu canfod mewn ardaloedd eraill, y tu allan i ardal Heddlu Dyfed Powys, ac nad ydynt yn dychwelyd, am ba reswm bynnag.

Pryderon ynghylch Iechyd/Camreoli Diabetes

- Roedd gan y fenyw ifanc ddiabetes math 1 ac roedd angen ei reoli'n ofalus gydag inswlin. Nododd gweithwyr proffesiynol a fu'n gweithio'n agos gyda hi ei bod wedi cyfeirio'n hanesyddol at ei diabetes fel "ei babi", ac y byddai'n defnyddio hyn fel dull o reoli ei sefyllfa gyfan. Yn ystod y llinell amser, bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty sawl tro oherwydd lefelau ansefydlog o getonau a siwgr yn y gwaed. Roedd pryderon mewn perthynas â risgiau ei diabetes wedi bod yn ffactor pwysig a gyfrannodd at roi'r fenyw ifanc mewn gofal yn 2011 a'i symud i'r Uned Ddiogel ar dri achlysur dilynol; lle roedd yr Awdurdod Lleol yn teimlo y gellid ei chyflwyno i wasanaethau cymorth, ar ôl iddi ymgartrefu, a fyddai'n ei helpu i reoli ei llesiant emosiynol, ei hiechyd a'i defnydd o gyffuriau. Roedd y cynllun trosglwyddo pellach o'r Uned Ddiogel hefyd yn ymwneud ag ail-greu cymorth y gwasanaethau hyn yn y gymuned.

- Yn ogystal, cafodd y fenyw ifanc ei chefnogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda drwy ei Dîm Pediatrig, Nyrs Diabetes Arbenigol, Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Arbenigol, a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru pan aeth i Getoasidosis Diabetig[25] (DKA) a bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty. Atgyfeiriwyd y

[25]Mae **Cetoasidosis Diabetig (DKA)** yn broblem ddifrifol sy'n gallu digwydd i bobl â diabetes os bydd inswlin yn dechrau mynd yn brin yn eu corff. Mae hyn yn golygu bod sylweddau niweidiol o'r enw cetonau yn cronni yn y corff, a gall hyn beryglu bywyd y claf os na chaiff ei adnabod a'i drin yn gyflym. Mae DKA yn effeithio ar bobl â diabetes math 1 yn bennaf, ond gall effeithio ar bobl â diabetes math 2 weithiau. NHS.org.uk

fenyw ifanc at brosiect Willows[26] hefyd ac aeth yno ddwywaith. Ailgynigiwyd y gwasanaeth ond gwrthododd y fenyw ifanc ymgysylltu.

- Roedd ei hymgysylltiad â'r gwasanaethau iechyd (y tu allan i'r Uned Ddiogel) yn arwynebol a byddai'n colli ei hapwyntiadau'n rheolaidd. Nid oedd y fenyw ifanc yn rheoli ei phroblemau iechyd nac yn rhoi sylw iddynt, h.y. roedd yn camreoli ei diabetes. Roedd hyn yn bryder difrifol i'r holl asiantaethau, ac yn risg ddifrifol i'w hiechyd. Crybwyllwyd pryderon yn hyn o beth yn gyson yn yr holl ddogfennaeth ac mewn adolygiadau a oedd yn ymwneud â'r fenyw ifanc, a nodwyd ei bod yn wynebu risg sylweddol.

- Pan fyddai'n mynd i'r ysbyty, ni allai'r fenyw ifanc ateb p'un a oedd wedi bod yn cymryd ei hinswlin ai peidio. Roedd ei deiet yn ymddangos yn wael ac nid oedd yn bwyta prydau iawn nac yn rheolaidd. Er mwyn i'r fenyw ifanc reoli ei diabetes mewn modd diogel, roedd angen iddi fod yn hunangymhellol i brofi a chwistrellu ei hun. Nid oedd yn cymryd ei meddyginiaeth ragnodedig yn rheolaidd ychwaith.

- Ni ymgysylltodd y fenyw ifanc ag atgyfeiriadau a wnaed at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Arbenigol ac felly, yn unol â chanllawiau'r gwasanaeth, caewyd ei hachos.

- Hefyd, yn ystod ei chyfnodau yn yr ysbyty, nodwyd bod ganddi heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a phroblemau iechyd rhywiol difrifol. Yng nghofnodion y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant yn 2017, nodwyd bod ei hiechyd yn peri pryder difrifol a'i bod yn wynebu risg sylweddol o niwed o ganlyniad.

- Prynodd yr Awdurdod Lleol ddyfais 'Libre'[27] ar gyfer y fenyw ifanc fel ffordd o'i helpu i hunanreoli ei diabetes.

- Yn ystod llinell amser yr adolygiad, cafwyd tystiolaeth a datgeliad gan y fenyw ifanc o gamddefnyddio sylweddau. Roedd ei hymgysylltiad â Choices yn ysbeidiol ac, wrth drosglwyddo, atgyfeiriwyd y fenyw ifanc at DDAS. Yn dilyn hynny, cafodd ei hachos ei gau gyda'r gwasanaeth am iddi fethu ymgysylltu.

- Ni fynychodd y fenyw ifanc apwyntiadau iechyd bob amser yn ystod y llinell amser a byddai wedi bod yn fuddiol cymryd camau dilynol yn sgil hyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd asesiadau iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal yn briodol. Dywedodd y fenyw ifanc fod ganddi iselder a phroblemau gorbryder a rhagnodwyd gwrth-iselyddion ar ei chyfer. Dogfennwyd pryderon mwy difrifol ynghylch iechyd y fenyw ifanc yn Adroddiad y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol, ac mewn Cynlluniau ac Adolygiadau Gofal. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â phob agwedd ar iechyd y fenyw ifanc; yn feddyliol, yn gorfforol ac yn emosiynol.

- Dywedodd cydweithwyr o'r sector iechyd yn y Digwyddiad Dysgu y byddent yn hoffi pe byddent wedi uwchgyfeirio eu pryderon diogelu drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a herio mwy mewn cyfarfodydd amlasiantaethol.

- Mynegwyd pryderon am ymarferwyr yn y Digwyddiad Dysgu mewn perthynas â dymuniad a gyflëwyd ar lafar gan y fenyw ifanc mewn sgwrs â'i Meddyg Teulu cyn ei

[26] **Prosiect Willows** – elusen gofrestredig sy'n cynnig gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc rhwng 6 a 19 oed y mae problemau emosiynol ac iechyd meddwl yn effeithio arnynt.

[27] **Dyfais Libre** – synhwyrydd bach o dan y croen a gaiff ei ddefnyddio i fonitro a chofnodi lefelau glwcos (siwgr) drwy gydol y dydd. Diabetes.uk

marwolaeth lle dywedodd nad oedd am i weithwyr proffesiynol ei dadebru. Nid oedd y Tîm Diogelu Iechyd na'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol o hyn. Roedd hyn yn bryder i'r holl asiantaethau a oedd yn bresennol a theimlwyd y byddai wedi bod yn briodol uwchgyfeirio'r mater y tu allan i feddygfa'r Meddyg Teulu i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

- Cafodd pryderon ynghylch y trothwyon trosglwyddo rhwng y Gwasanaethau Iechyd Oedolion a Phlant, a mynediad y fenyw ifanc at gymorth parhaus, eu rheoli'n dda drwy roi trefniad trosglwyddo ar waith am dri mis cyn ei throsglwyddiad. Fodd bynnag, cafwyd anhawster wrth geisio cael y fenyw ifanc i ymgysylltu â'r gwasanaethau/gweithwyr proffesiynol arbenigol.

Arferion Da a Nodwyd

Cysondeb a dilyniant gofal a arweiniwyd gan Ymgynghorwyr yn y Tîm Diabetes a'r ddarpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl a gynigiwyd i'r fenyw ifanc yn rheolaidd.

Trefniadau trosglwyddo ar gyfer y fenyw ifanc a roddwyd ar waith rhwng y Gwasanaethau Iechyd Oedolion a Phlant am dri mis yn dilyn pen-blwydd y fenyw ifanc yn 18 oed.

Y cymorth, yr hyfforddiant a'r cyngor a roddwyd i ofalwyr maeth y fenyw ifanc ar sail drws agored er mwyn eu helpu i reoli ei diabetes.

Y cymorth cyson a ddarparwyd i'r fenyw ifanc er gwaethaf ei natur ymosodol a thanllyd ar rai adegau.

Penodiad gweithiwr proffesiynol cyswllt dynodedig â'r Gwasanaethau Oedolion gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Arbenigol ar gyfer person ifanc pan fydd yn cyrraedd 17 oed.

Y sylw brys a roddwyd i atgyfeiriad Therapi Gwybyddol Dialectig y fenyw ifanc, a allai fod wedi cymryd dwy flynedd pe na bai wedi cael ei drin â'r fath bwysigrwydd hanfodol.

Gwersi i'w Dysgu

Dylai'r cais a wnaed gan y fenyw ifanc i'w Meddyg Teulu (i beidio â cheisio ei dadebru) fod wedi cael ei atgyfeirio y tu allan i Feddygfa'r Meddyg Teulu i weithwyr diogelu proffesiynol a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl a oedd yn cefnogi'r fenyw ifanc.

Dylai plentyn neu berson ifanc sydd â mwy nag un elfen arbenigol, megis diabetes a diogelu, gael un Meddyg Teulu penodol a dylai'r unigolyn hwnnw fynychu adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, gan ddarparu dull mwy rhagweithiol o rannu gwybodaeth.

Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol sicrhau eu bod yn uwchgyfeirio eu pryderon os ydynt yn teimlo bod angen gwneud hynny.

Os bydd Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn colli apwyntiad, dylid rhoi gwybod i'w Weithiwr Allweddol a ddylai gymryd camau dilynol.

Cynllun Amddiffyn Plant

- Nid oedd cynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol ar gyfer person ifanc yn ymarfer arferol o ystyried yr holl gynlluniau a oedd eisoes ar waith. Cynhaliwyd y Gynhadledd oherwydd y risgiau o niwed sylweddol i'r fenyw ifanc, yn bennaf y risg o niwed drwy gamfanteisio rhywiol; y ffaith ei bod yn gwrthod ymgysylltu â gwasanaethau; pryderon afrealistig ynghylch ei hopsiynau tai; cysylltiadau â dynion hŷn; rhedeg i ffwrdd; peidio â rheoli ei hanghenion iechyd ei hun na rhoi sylw iddynt; ei natur danllyd o ran ei chydberthnasau ag aelodau o'r teulu; ei hanallu i weld gwirionedd y sefyllfa; problemau camddefnyddio sylweddau posibl; ynghyd â phroblemau gydag iselder a gorbryder. Roedd pryder hefyd pan gynhaliwyd y gynhadledd gychwynnol nad oedd y person ifanc yn cydymffurfio â'r 'Contract Disgwyliadau' y cytunwyd arno.

- Roedd y Cynllun Amddiffyn Plant yn adlewyrchu Cynllun Gofal a Chymorth y fenyw ifanc ac roedd yn dangos pa mor ddifrifol oedd ei sefyllfa ym marn swyddogion yr Awdurdod Lleol; eu dymuniad i'w hamddiffyn rhag niwed a dwyn yr holl asiantaethau i gyfrif, am eu cymorth a'u gofal amdani, wrth symud y fenyw ifanc yn ei blaen i ffordd o fyw fwy diogel â llai o risg. Prif nod y cynllun yn ei gyfanrwydd oedd gosod ffiniau diogel a dylanwadu ar ymddygiad mwy diogel, a defnyddio dull cyfannol i ymdrin â'r risg o CSE.

- Cafodd y cynllun ei fonitro a'i adolygu'n briodol ac yn effeithiol, a chyfeiriwyd ato mewn dogfennaeth gynllunio gyfreithiol ddilynol (cynhaliwyd cyfarfodydd cynllunio cyfreithiol drwy gydol y cyfnod pan oedd y fenyw ifanc ar y gofrestr amddiffyn plant). Penderfynwyd gwneud cais am Orchymyn Diogel tua mis ar ôl cynnal y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.

Arferion Da a Nodwyd

Mantais sylweddol defnyddio'r Gofrestr Amddiffyn Plant fel y faner safonol, gydnabyddedig i nodi risg bresennol o niwed sylweddol.

Gwersi i'w Dysgu

Ystyried pa mor briodol oedd cynlluniau'r Awdurdod Lleol ar y cyd â Chynlluniau Amddiffyn Plant a nodi a chofnodi mantais glir cael Cynllun Amddiffyn Plant pan fydd cynlluniau cydamserol eisoes ar waith.

Cynllun Llwybr

- Pan oedd y fenyw ifanc ar fin troi'n 16 oed, lluniodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Llwybr (yn unol â gofynion statudol) er mwyn cynorthwyo'r fenyw ifanc wrth iddi drosglwyddo i fyd oedolion a gadael gofal. Roedd y Cynllun Llwybr, a barhaodd i fod ar waith ar ôl ei phen-blwydd yn 18 oed, yn cynnwys ei Chynllun Gofal a Chymorth yn ogystal â'i Chynllun Tai Personol.

- Er y gelwir y Cynllun Llwybr yn 'gynllun', mae hefyd yn gweithredu fel dogfen gontractiol sy'n galluogi person ifanc i ddwyn Awdurdod Lleol i gyfrif os nad yw'n gwneud yr hyn a ddywedodd. Dylai'r Cynllun, a gaiff ei lunio mewn trafodaeth â'r person ifanc, gynnwys manylion a gwybodaeth benodol, ynghyd â nodi pwy sy'n gyfrifol am beth ac erbyn pryd y dylid cwblhau camau gweithredu.

- Roedd yr asesiad llwybr a'r broses gynllunio hefyd yn pennu ac yn cofnodi pa wybodaeth, cyngor a chymorth oedd yn angenrheidiol gan yr Awdurdod Lleol a'r holl bartïon a oedd yn cefnogi'r fenyw ifanc, wrth iddi baratoi i adael gofal a throsglwyddo i'r Gwasanaethau Oedolion.

- Gwelwyd bod angen rhoi sylw i gynllun y fenyw ifanc yn hyn o beth a bod elfennau mewn perthynas â pherchenogaeth, atebolrwydd a chanlyniadau o fewn amserlenni cytûn yn gyfyngedig.

- Serch hynny, er mwyn i drefniadau gael eu gwneud mewn ffordd briodol, gyda'r gweithwyr proffesiynol priodol ac yn brydlon, byddai cydweithredu rhwng y fenyw ifanc a'i Chynghorydd Personol wedi bod yn hollbwysig. Byddai hyn wedi gorfod cynnwys cyfathrebu uniongyrchol a rhagweithiol rhyngddynt. Byddai'r fenyw ifanc wedi gorfod rhoi gwybodaeth lawn i'w Chynghorydd Personol am yr hyn yr oedd ei angen arni, bod yn gydweithredol wrth gyfathrebu ag ef a chydag eraill yr oedd angen cysylltu â nhw ac, yn y pen draw, byddent wedi gorfod ysgrifennu'r cynllun gyda'i gilydd. O ystyried modus operandi y fenyw ifanc, byddai wedi bod yn anodd cyflawni hyn, yn enwedig gan fod y fenyw ifanc yn teimlo nad oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 'berchen arni' ar ôl ei phen-blwydd yn 18 oed.

- Roedd gan y fenyw ifanc anghenion cymhleth ac roedd angen cymorth parhaus gan wasanaethau arni wrth iddi drosglwyddo i fyd oedolion. Roedd y Cynllun Llwybr yn ymdrechu i sicrhau bod ei chyfnod trosglwyddo mor llyfn â phosibl a chafodd gymorth pellach drwy gael ei hystyried ym Mhanel Anghenion Cymhleth yr Awdurdod Lleol.

- Cynhaliwyd adolygiadau amserol ar bob cam o gyfnod trosglwyddo'r fenyw ifanc ac o'r Cynllun Llwybr.

Arferion Da a Nodwyd

Mae'r Awdurdod Lleol wedi rhoi cyfarfod adolygu canol cyfnod ar waith rhwng y Swyddog Adolygu Annibynnol a'r Gweithiwr Cymdeithasol er mwyn monitro'r ffordd y caiff y Cynlluniau Gofal a Chymorth eu rhoi ar waith. Mae templed adrodd a gaiff ei lenwi gan y Gweithiwr Cymdeithasol a chaiff ei fonitro gan y Swyddog Adolygu Annibynnol. Cyn y cyfarfod adolygu blynyddol, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cyfarfod â'r Gweithiwr Cymdeithasol i sicrhau bod popeth yn ei le cyn yr adolygiad.

Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau i adolygu Cynlluniau Llwybr pobl ifanc sy'n gadael gofal yn 18 oed neu'n hŷn er mwyn sicrhau bod y cynllunio'n gadarn; mae hyn yn arfer orau ac nid yw'n ofyniad statudol.

Gwersi i'w Dysgu

Mae angen cynnwys manylion am drosglwyddo, cymorth, monitro a threfniadau wrth gefn mewn Cynlluniau Llwybr fel mater o drefn.

Yn yr achos hwn, roedd cyfle i gynnal cyfarfod cynhadledd grŵp teulu fel bod y teulu yn gallu cofnodi eu barn ar drosglwyddiad y fenyw ifanc o'r Uned Ddiogel, a sut y gallent fod wedi cyfrannu at gefnogi ei Chynllun Llwybr wrth fynd ymlaen.

Ceisiadau am Lety Diogel/Cynllunio Cyfreithiol/Addasu

- Mae Gorchymyn Diogel ar ben mwyaf eithafol pwerau'r Llys ac mae'n galluogi Awdurdodau Lleol i amddifadu pobl ifanc o'u rhyddid er mwyn diogelu eu lles. Byddai eu defnyddio ar gyfer Awdurdod Lleol yn ddewis olaf bob amser.

- Gwnaeth prinder cenedlaethol o welyau diogel ar gyfer ceisiadau lles atal yr Awdurdod Lleol rhag gallu sicrhau Llety Diogel fel ffordd o gefnogi'r fenyw ifanc ar sawl achlysur.

- Dim ond os bodlonwyd meini prawf diogelu ac os cafodd gwely ei nodi a'i sicrhau cyn gwneud y cais y gellid ystyried ceisiadau. Gwnaeth yr Awdurdod Lleol bum cais am Orchymyn Diogel rhwng y cais gwreiddiol a phen-blwydd y fenyw ifanc yn 18 oed. Ar ddau o'r achlysuron hyn, gwrthododd y Llys geisiadau'r Awdurdod Lleol ar y sail na fodlonwyd y meini prawf. Roedd y Llys o'r farn nad oedd y ceisiadau hynny i sicrhau bod y fenyw ifanc yn aros yn yr Uned Ddiogel yn briodol o ystyried pa mor dda roedd y fenyw ifanc wedi ymateb pan oedd yn yr Uned.

- Yn y pen draw, cafodd y penderfyniadau – a oedd hefyd yn ystyried dymuniadau ac oed y fenyw ifanc – effaith ar yr amser y gallai'r fenyw ifanc ei dreulio yn yr Uned Ddiogel. O ganlyniad, erbyn pen-blwydd y fenyw ifanc yn 18 oed, teimlai'r gweithwyr proffesiynol bod eu hamser ar ben, ar adeg pan oedd gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ar ei chyfer ond roedd gwaith parhaus i'w wneud o hyd.

- Roedd hon yn sefyllfa amhosibl i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw, ac yn un a oedd yn pwyso'n drwm arnynt. Er mwyn i'r gwaith hwnnw barhau, byddai'r fenyw ifanc wedi gorfod ymgysylltu a chydweithredu yn y gymuned.

- I weithwyr proffesiynol, yr hyn a roddodd y Gorchymyn Diogel iddynt mewn gwirionedd oedd cyfnod o ddiogelwch, lle roedd llai o bryderu am ddiogelwch y fenyw ifanc.

- I'r fenyw ifanc, roedd lleoliad y Gorchymyn Diogel yn cynnig cyfnod o sefydlogrwydd o ran ei hiechyd a'i llesiant, a chyfle iddi ffynnu i ffwrdd o'r risgiau a oedd yn ei hwynebu yn yr ardal leol ac ar-lein, na allai eu rheoli. Gallai hefyd gael budd o'r gofal a ddarparwyd a ffynnu mewn ardal y byddai wedi aros ynddi petai'r cyfle hwnnw wedi bod ar gael iddi. Meithrinwyd cydberthynas rhwng y staff yn yr Uned a'r fenyw ifanc a gwnaeth eu canmol yn fawr ar ôl gadael, gan fynegi hyn mewn cerdyn diolch iddynt. Roedd hefyd yn amlwg bod dychwelyd i'r un Uned wedi bod o fudd i'r fenyw ifanc. Mae'n bosibl na fyddai'r canlyniadau wedi bod yr un peth iddi petai lleoliadau gwahanol wedi'u trefnu.

- Pan ddychwelodd y fenyw ifanc i'r gymuned ar ôl ei phen-blwydd yn 18 oed ac yn rhydd o ffiniau a chyfyngiadau'r lleoliad diogel lle roedd wedi elwa o ran ei hiechyd, ei dyheadau a'i llesiant, nid oes unrhyw amheuaeth bod ei phrosesau hunanreoli wedi dirywio a gwelwyd cynnydd amlwg mewn risg.

Arferion Da a Nodwyd

Pan barhaodd yr Awdurdod Lleol â'r achos Llys yn 2017, er na nodwyd bod gwely ar gael, gan ddangos ei fod yn blaenoriaethu anghenion y fenyw ifanc.

TERFYNOL

Safbwynt y Teulu

Roedd y teulu yn gefnogol o'r Cais Diogel o ystyried ymddygiad peryglus y fenyw ifanc a oedd yn gwaethygu. Nid oedd ei mam yn teimlo y gallai ei merch gadw ei hun yn ddiogel. Nodwyd bod y fenyw ifanc yn gandryll pan aeth i'r Uned Ddiogel i ddechrau, ond ffynnodd yno ac roedd ei diabetes yn cael ei reoli. Fodd bynnag, nid oedd yn hoffi mai hi oedd yr hynaf yno. Roedd hi'n edrych yn iach iawn; gwnaeth hyd yn oed y barnwr sylwi ar hyn.

Gwersi i'w Dysgu

Mae angen ymyrryd yn gynharach i ddarparu gwasanaethau mwy ataliol yn y gymuned, er mwyn galluogi pobl ifanc i gael eu cefnogi yno, cyn i'w hanghenion fynd yn rhy ddifrifol.

Dylai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru - CYSUR ystyried tynnu sylw at yr heriau parhaus o ran argaeledd, prinder a hygyrchedd llety diogel a dylid cyfeirio hyn at y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol/Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Plant.

Cynlluniau Trosglwyddo ac Annibyniaeth Ôl 18

- Roedd yr holl weithwyr proffesiynol yn teimlo bod angen mwy o amser ar y fenyw ifanc i symud o'r Uned Ddiogel, yr oedd hi'n amlwg wedi cael budd ohoni, ac ymgartrefu i fyw'n annibynnol. 'Mae angen i ymadawyr gofal gael yr un math o gyfleoedd, cymorth a chefnogaeth ag y mae pob rhiant yn ceisio'u rhoi i'w plant wrth iddyn nhw ddechrau dod o hyd i'w ffordd yn y byd.'[28] Mae angen cymryd gofal i atal carreg filltir rhag bod 'yn ddigwyddiad sydyn yn hytrach na phroses a gefnogir', fel y digwyddodd yn achos y fenyw ifanc. [29]

- Yn unol â 'Breuddwydion Cudd[30]', 'Llwybr Cadarnhaol' Llywodraeth Cymru ar gyfer tai[31] a'r 'Fframwaith llety a chymorth i ymadawyr gofal yng Nghymru'[32], roedd gan yr Awdurdod Lleol ganllaw a oedd yn rhoi gwybodaeth glir i bobl ifanc am adael gofal a'r cymorth yr oedd hawl ganddynt iddo.

- Erbyn i'r amser ddod i wneud y trefniadau trosglwyddo terfynol ar gyfer y fenyw ifanc, cafodd gweithwyr proffesiynol eu rhwystro am nad oedd yn bosibl parhau â'r cynllun i'w lletya y tu allan i'r Uned Ddiogel. Ni roddwyd cynllun wrth gefn ar waith mewn da bryd cyn ei phen-blwydd yn 18 oed oherwydd y ddealltwriaeth ymhlyg oedd gan bawb, sef bod y fenyw ifanc yn mynd i aros yn ardal yr Uned Ddiogel.

- Roedd arwyddocâd trosglwyddo i'r fenyw ifanc yn sylweddol, oherwydd ei dibyniaeth ar wasanaethau eraill, gan gynnwys y Nyrs Diabetes a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Arbenigol. Ar ei phen-blwydd yn 18 oed, roedd yn rhaid iddi drosglwyddo i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion. Er bod trefniadau cefnogol ar waith am dri mis, nododd gweithwyr proffesiynol yn y Digwyddiad Dysgu i ymarferwyr pa mor arwyddocaol fyddai colli'r holl wasanaethau roedd y fenyw ifanc yn gyfarwydd â nhw

[28] Breuddwydion Cudd, 'Ymrwymiad Cymru i bobl ifanc sy'n gadael gofal.'
[29] Pan fydda i'n barod - Canllaw Arfer Da, Mawrth 2016. Llywodraeth Cymru 28047
[30] Breuddwydion Cudd, 'Ymrwymiad Cymru i bobl ifanc sy'n gadael gofal.'
[31] Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion, Llywodraeth Cymru 2016.
[32] Fframwaith llety a chymorth i ymadawyr gofal yng Nghymru. Barnados, 2015. www.barnados.org.uk

ac wedi'u defnyddio wedi bod iddi. Teimlwyd, wrth fynd ymlaen, y dylid rhoi asesiadau risg ar waith yn hyn o beth.

- Wrth baratoi i'r fenyw ifanc ddychwelyd i fyw yn y gymuned o'r Uned Ddiogel, rhoddwyd trefniadau trosglwyddo ar waith rhwng y Gwasanaethau Plant ac Oedolion mewn perthynas â Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a Gwasanaethau Diabetig.

- Roedd gwaith ailintegreiddio wedi mynd rhagddo y tu allan i ardal y cartref. Roedd geiriau'r ferch ifanc ei hun yn arbennig o drist pan gafodd wybod ei bod wedi cael ei gwrthod o'r lleoliad tai â chymorth: “right, I just give up then, just send me back to Wales.” Gwelodd y staff y teimladau o anobaith a'r un hen ymadrodd bod pobl wedi'i gadael hi i lawr eto. Roedd hyn yn rhwystredig i'r gweithwyr proffesiynol hefyd, ac roedd y broses wedi'u digalonni. Mae staff yr Uned Ddiogel wedi myfyrio y gallent, fel rhan o'r cynllun wrth gefn, fod wedi ceisio parhau i gefnogi'r fenyw ifanc ar ôl ei phen-blwydd yn 18 oed mewn lleoliad nad oedd yn lleoliad diogel. Gwnaethant fyfyrio y gallent fod wedi gwneud cais am estyniad ar ei chyfer ond, mewn gwirionedd, dim ond am ychydig wythnosau fyddai hyn wedi bod, pe bai wedi cael ei ganiatáu o gwbl.

- Nid oedd tystiolaeth o drefniadau cadw cofnodion ffurfiol na strwythur i gofnodi'r ymweliadau a gynhaliwyd â'r fenyw ifanc yn ei fflat ar ôl ei phen-blwydd yn 18 oed. Fodd bynnag, darparwyd gwybodaeth ategol a oedd yn cadarnhau bod disgwyl i'r Awdurdod Lleol a gweithwyr proffesiynol eraill a oedd yn gweithio gyda hi ymweld â'r fenyw ifanc bob dydd, ond nid oedd y gweithwyr proffesiynol wedi rhoi gwybod i'w gilydd pryd y gwnaethant ymweld â hi felly, yn gyffredinol, gweithwyr sesiynol oedd yn cynnal yr ymweliadau dyddiol. Roedd y dyddiadau a ddarparwyd yn dangos bod rhywfaint o fylchau mewn presenoldeb a chofnodi. Nid oedd yn glir ychwaith ac nid oedd tystiolaeth o ble roedd yr ymweliadau hyn a'u canlyniadau yn cael eu cofnodi yn ffurfiol, os oeddent yn gwbl, a ph'un a gymerwyd camau dilynol ar eu cyfer.

- Pan gynhaliwyd yr ymweliadau (yn y bore a chyda'r nos), cofnododd gweithwyr proffesiynol mai prin oedd yr achosion pan fyddai'r fenyw ifanc yn dod at y drws ac ni fyddai'n ateb ei ffôn ychwaith. Roedd yn amlwg i'r gweithwyr proffesiynol bod y fenyw ifanc yn y fflat, a chyda phobl eraill, oherwydd gallent glywed sŵn chwerthin a chi yn cyfarth o bryd i'w gilydd.

- Yn Adolygiad y Cynllun Llwybr ar 10 Ionawr 2018, nododd Gweithiwr Cymdeithasol y fenyw ifanc bryder mewn perthynas â hyn. Esboniwyd bod y fenyw ifanc yn dweud bod y Gweithwyr Sesiynol yn mynd at ddrws allanol yr adeilad yn hytrach na'n uniongyrchol at ddrws ffrynt ei fflat; ac eithrio ei Chynghorydd Personol, nid oedd y rhif ganddynt i fynd i mewn i'r adeilad a churo ar ei drws yn uniongyrchol. Dywedodd teulu'r fenyw ifanc fod y Cynghorydd Personol yn ddyfalbarhaol ac na fyddai'n gadael tan iddi weld y fenyw ifanc a siarad â hi'n uniongyrchol. Roedd y fenyw ifanc hefyd wedi gwneud cais i'r Gweithwyr Sesiynol gael ei rhif ffôn ac iddi hi gael eu rhifau nhw fel y gallai gysylltu â nhw os nad oedd hi'n mynd i fod gartref. Cofnododd y Gweithiwr Cymdeithasol yn ffurfiol yn Adolygiad y Cynllun Llwybr fod pryder nad oedd y cynllun yn gweithio ar hyn o bryd, bod diffyg cydgysylltiad ac na ddylai'r Gweithwyr Sesiynol adael os nad oedd y fenyw ifanc yn ateb. Roedd hefyd yn bryderus nad oedd y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Cynghorydd Personol yn cael eu diweddaru am yr ymweliadau a ph'un a oeddent wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Un o'r camau gweithredu o gyfarfod Adolygu'r Cynllun Llwybr oedd rhoi cynllun ar waith er mwyn ymdrin â phryderon o fethu cael mynediad i fflat y fenyw ifanc er mwyn gallu ei hasesu. Y dyddiad gofynnol ar gyfer cyflawni'r cam hwn oedd 24 Ionawr 2018 (y tu hwnt i linell amser yr adolygiad). Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth pan ddaeth yr adolygiad i ben i ddangos bod camau wedi'u cymryd yn hyn o beth.

- Gwelwyd tystiolaeth hefyd o ba mor gyflym roedd y fenyw ifanc yn mynd yn ôl i'w hen ymddygiad a'i pherthnasoedd camfanteisiol ar ôl cael ei rhyddhau (er gwaethaf ei phecyn cymorth). Ymddengys fod hyn yn cadarnhau nad oedd yn barod i fyw'n annibynnol heb gymorth, rhywbeth roedd y fenyw ifanc wedi dweud ei bod am ei wneud erioed.

- Cafwyd gwybodaeth bod y fenyw ifanc yn camddefnyddio sylweddau a bod dynion yn ymweld â'i fflat. Roedd gan weithiwr proffesiynol yn y Digwyddiad Dysgu i ymarferwyr ymdeimlad bod y fenyw ifanc mewn sefyllfa na allai ddianc ohoni ac, er gwaethaf y cymorth a oedd yn cael ei gynnig a'r ymdrechion gwirioneddol oedd yn cael eu gwneud i'w chynghori, roedd y risg roedd y fenyw ifanc yn ei hwynebu yn cynyddu.

- Nid oedd cofnod bod gweithwyr proffesiynol wedi gwneud cais i'r Heddlu gynnal gwiriad lles, er gwaethaf y ffaith bod pryderon yn cynyddu, ac nid oedd tystiolaeth yn dogfennu'r hyn oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â gwiriadau diogelu ac ymyrryd.

Arferion Da a Nodwyd

Y cymorth trosglwyddo a roddwyd ar waith rhwng y Gwasanaethau Oedolion a Phlant ar draws amlasiantaethau i gynorthwyo'r fenyw ifanc am y tri mis ar ôl ei phen-blwydd yn 18 oed.

Y newidiadau a wnaed eisoes a roddwyd ar waith gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Arbenigol ar gyfer person ifanc pan fydd yn cyrraedd 17 oed a phenodiad swyddog cyswllt dynodedig â'r Gwasanaethau Oedolion.

Safbwynt y Teulu

Cynhaliodd y teulu gyfarfod teuluol ac roeddent wedi deall bod y fenyw ifanc yn dychwelyd at ei chyn-ofalwr maeth. Byddai ei hanner brawd/chwaer agosaf wedi rhannu fflat gyda hi, petai wedi cael caniatâd i wneud hynny.

Roedd trosglwyddo o'r Llety Diogel i fyw'n annibynnol yn anodd i'r fenyw ifanc ac roedd pryder am ei bod yn camreoli ei diabetes. Teimlai'r teulu nad oedd unrhyw beth yn cael ei wneud.

Roedd y fenyw ifanc wedi dweud wrth ei hanner chwaer ei bod am aros yn yr Uned Ddiogel am ei bod yn gwybod na fyddai'n llwyddo i fyw ar ei phen ei hun.

Dylid gosod botymau panig ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl ac yn byw ar eu pen eu hun.

Gwersi i'w Dysgu

Mae'r cyfnod trosglwyddo o'r Gwasanaethau Plant i'r Gwasanaethau Oedolion a meini prawf y trothwyon rhyngddynt yn gymhleth ac yn anghymesur, gan roi pobl ifanc sy'n agored i niwed mewn perygl os nad ydynt yn bodloni'r trothwyon i oedolion. Mae angen rhoi 'Protocol Trosglwyddo' ar waith ar draws Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) i gefnogi pobl ifanc sy'n trosglwyddo (14-25 oed), sy'n wynebu risg ac nad ydynt yn bodloni meini prawf trothwy'r Gwasanaethau Oedolion yn uniongyrchol.

Wrth gynllunio trefniadau trosglwyddo, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ystyried y gwasanaethau niferus sydd wedi cefnogi person ifanc cyn ei ben-blwydd yn 18 oed, ac asesu'r risg o ddod â'r gwasanaethau hynny i ben, fel nad ydynt yn diflannu'n sydyn ond, yn hytrach, yn trosglwyddo'n llyfn neu'n dod i ben gyda chymorth.

Dylai'r trefniadau trosglwyddo sydd wedi'u cofnodi yng Nghynllun Llwybr person ifanc gynnwys cynllun wrth gefn, o'r cychwyn cyntaf, sy'n ystyried trefniadau yn yr ardal leol a'r tu allan iddi ar yr un pryd.

Mae angen i weithwyr proffesiynol arfer 'chwilfrydedd proffesiynol' a defnyddio 'ansicrwydd parchus', gan werthuso unrhyw wybodaeth maent yn ei derbyn mewn modd beirniadol a chadw meddwl agored er mwyn ystyried amgylchiadau person ifanc yn gyfannol.

Dylid cadw cofnod ffurfiol o ymweliadau dyddiol a chymorth sydd wedi'u cynllunio, gyda chynllun uwchgyfeirio/risg ar waith, a gofnodir yn glir yng Nghynllun Llwybr person ifanc. Os nad yw person ifanc yn glynu wrth gynllun neu os bydd pryderon yn dod i'r amlwg, dylai'r gweithwyr proffesiynol perthnasol gymryd camau gweithredu priodol.

Dylid sicrhau bod arfer myfyriol a heriol yn cael ei annog pan fydd gweithwyr proffesiynol yn goruchwylio ac wrth baratoi staff y mae angen iddynt fynychu Digwyddiadau Dysgu.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i asiantaethau sy'n aelodau, ynghyd â'r canlyniadau gwella a ragwelir:

Rhoddwyd ymarfer cadarn ar waith gan asiantaethau i gefnogi'r fenyw ifanc ac i liniaru'r risgiau yr oedd yn eu hwynebu. Roedd asiantaethau yn deall ei hanghenion ac yn gwneud eu gorau i'w chefnogi. Fodd bynnag, er gwaethaf eu holl ymdrechion, pan ddychwelodd y fenyw ifanc o'r Llety Diogel i'r gymuned, ailymddangosodd y pryderon a'r risgiau ac nid oedd yn bosibl eu rheoli yn effeithiol. Nodwyd y gwersi canlynol i'w dysgu er mwyn llywio ymarfer a gwella systemau yn y dyfodol.

Gwers i'w Dysgu 1: Dylai Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) uwchgyfeirio'r sefyllfa o ran pa mor brin yw gwelyau mewn unedau diogel yng Nghymru i'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol/Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Plant, ynghyd â'r angen i ystyried opsiynau amgen amlasiantaethol mwy cadarn yn lle gofal diogel.

Gwers i'w Dysgu 2: Dylai holl Asiantaethau Partner y Bwrdd Rhanbarthol sicrhau bod systemau cyfathrebu effeithiol ar waith er mwyn cefnogi eu staff yn y ffordd orau bosibl i gefnogi pobl ifanc. Dylai'r systemau cyfathrebu hyn gydnabod gwahaniaeth proffesiynol ac annog prosesau herio ac uwchgyfeirio priodol ar draws ffiniau sefydliadol.

Gwers i'w Dysgu 3: Dylai'r holl asiantaethau a phartneriaid fod yn atebol i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol er mwyn parhau i hyfforddi eu staff i weithredu a defnyddio fframwaith 'Signs of Safety' yn gyson yn eu hymarfer proffesiynol.

Gwers i'w Dysgu 4: Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gomisiynu 'Protocol Trosglwyddo ar gyfer Pobl Ifanc 14-25 oed', y gall yr holl bartneriaid ei ddefnyddio i gyflwyno a chefnogi arferion gorau yn y cyd-destun hwn, yn enwedig pan nad oes trosglwyddiad uniongyrchol i'r Gwasanaethau Oedolion ac i gydnabod nad yw risg yn newid pan fydd person ifanc yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed.

Gwers i'w Dysgu 5: Nid yr Heddlu neu asiantaethau statudol yn unig ddylai fod yn gyfrifol am sesiynau ôl-drafod ynghylch person ifanc, ond yn hytrach dylai'r holl bartneriaid amlasiantaethol fod yn gyfrifol am hyn a dylid cynnwys Gweithiwr Allweddol y person ifanc.

Gwers i'w Dysgu 6: Dylai pob asiantaeth sicrhau bod staff yn defnyddio ac yn hyrwyddo chwilfrydedd proffesiynol a thechnegau myfyrio yn eu hymarfer, a fydd yn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac y ceir ymyriadau mewn sefyllfaoedd sy'n gwaethygu.

Gwers i'w Dysgu 7: Dylai Grŵp Fframwaith Maethu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru wella'r ymgyrch i recriwtio gofalwyr maeth er mwyn gwella'r dewis o leoliadau gofal maeth a lleoliadau 'Pan Fydda i'n Barod' sydd ar gael i ddiwallu anghenion pobl ifanc cymhleth a heriol.

Gwers i'w Dysgu 8: Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod pob aelod priodol o'r teulu yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn cyfarfod teuluol a mynegi barn ar drefniadau byw person ifanc yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

TERFYNOL

Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr			
Adolygydd 1	Maxine Thomas	**Adolygydd 2** *(fel y bo'n briodol)*	Matthew Brown
Datganiad o annibyniaeth ar yr achos *Datganiad Sicrhau Ansawdd o gymhwysedd*		**Datganiad o annibyniaeth ar yr achos** *Datganiad Sicrhau Ansawdd o gymhwysedd*	
Cyn dod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn, gallaf ddatgan y canlynol: • Nid oeddwn wedi dod i gysylltiad uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid oeddwn wedi rheoli llinell yr ymarferydd/ymarferwyr a oedd yn gysylltiedig â'r achos yn uniongyrchol. • Mae gennyf y cymwysterau priodol cydnabyddedig, y wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad. • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol, gan ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.		Cyn dod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn, gallaf ddatgan y canlynol: • Nid oeddwn wedi dod i gysylltiad uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid oeddwn wedi rheoli llinell yr ymarferydd/ymarferwyr a oedd yn gysylltiedig â'r achos yn uniongyrchol. • Mae gennyf y cymwysterau priodol cydnabyddedig, y wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad. • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol, gan ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.	
Adolygydd 1 *(Llofnod)* Maxine Thomas.		**Adolygydd 2** *(Llofnod)*	
Enw **Maxine Thomas** ……		**Enw** **Matthew Brown** ……	

TERFYNOL

(Printiwch)	*(Printiwch)*
Dyddiad 21 Hydref 2019	**Dyddiad** 21 Hydref 2019
Cadeirydd y Panel *(Llofnod)*	**Adolygu**
Enw **Darren Mutter** …….. *(Printiwch)*	
Dyddiad 21 Hydref 2019 ……	

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Atodiad 2: Llinell Amser Gryno

TERFYNOL

Proses yr Adolygiad Ymarfer Plant

Crynodeb o'r pethau i'w cynnwys yma:

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu*
- *Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu a'r gwasanaethau a oedd yn bresennol*
- *Rhoddwyd gwybod i aelodau o'r teulu, gofynnwyd am eu barn a chawsant eu cynrychioli drwy'r Digwyddiad Dysgu a rhoddwyd adborth iddynt.*

Proses yr Adolygiad Ymarfer Plant

Roedd gan y fenyw ifanc a'i theulu hanes hir o weithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys achosion gofal, cyfnodau o fod ar y gofrestr amddiffyn plant a cheisiadau am orchmynion diogel. Yn anffodus, bu farw'r fenyw ifanc, a fu'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, ddeufis ar ôl ei phen-blwydd yn 18 oed ac roedd wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant tan ei phen-blwydd yn 18 oed. Pan fu farw'r fenyw ifanc, roedd wedi gadael gofal ac yn derbyn Cynllun Llwybr ac roedd gweithiwr cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i fod yn gyfrifol am ei hachos. O ganlyniad i amgylchiadau pryderus marwolaeth y fenyw ifanc a'r wybodaeth hysbys, roedd y meini prawf ar gyfer cynnal Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig wedi'u bodloni. Cafodd y mater ei ystyried yng nghyfarfod y Grŵp Gweithredol Lleol a chafodd ei atgyfeirio at yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant a argymhellodd i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol y dylid cynnal Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig. Cymeradwyodd Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol y dylid cynnal Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig.

Yn unol â'r canllawiau, cynullwyd Panel Amlasiantaethol er mwyn rheoli'r Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig. Dyma'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel:

- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru);
- Yr Heddlu;
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Theuluoedd yr Awdurdod Lleol;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Arbenigol;
- Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau;
- Gwasanaethau Tai yr Awdurdod Lleol;
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR).

Penodwyd Cadeirydd Annibynnol o awdurdod cyfagos ar gyfer y Panel oedd â phrofiad o wasanaethau ar lefel uwch-reolwyr ond nad oedd ganddo unrhyw gysylltiad, gwybodaeth nac ymwybyddiaeth o'r fenyw ifanc na'i hachos.

Gan fod hwn yn Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig, penodwyd Adolygydd Arweiniol ac Ail Adolygydd nad oeddent wedi bod yn gysylltiedig â rheoli'r achos; roeddent yn deall y cyd-destun lleol ac yn gallu cyfrannu her a phrofiad proffesiynol allanol. Roedd gan y ddau Adolygydd y profiad perthnasol, y gallu, y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol ar gyfer ymdrin â'r achos.

DRAFT

Y Digwyddiadau Dysgu

Yn unol â'r canllawiau ar Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig, cynhaliwyd dau Ddigwyddiad Dysgu ar gyfer yr Adolygiad hwn ar 21 Mai 2019, a hwyluswyd gan yr Adolygydd Arweiniol a'r Ail Adolygydd. Roedd Cadeirydd Panel yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig yn bresennol hefyd er mwyn cynrychioli'r panel ac i sicrhau yr ymdriniwyd â'r cwestiynau a'r materion a nodwyd gan y Panel Adolygu. Roedd cyfanswm o 23 o gyfranogwyr yn y Digwyddiad Dysgu i Ymarferwyr a 15 rheolwr yn y Digwyddiad Dysgu i Reolwyr. Diben y ddau ddigwyddiad oedd:

- Rhoi cyfle i ymarferwyr a rheolwyr gyfrannu'n uniongyrchol at yr adolygiad;
- Rhannu safbwyntiau aelodau o'r teulu a gofalwr maeth;
- Galluogi'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig i fyfyrio a gwrando ar ei gilydd wrth gyfrannu a nodi'r hyn a ddysgwyd;
- Egluro, archwilio, cwestiynu a llywio manylion y llinell amser amlasiantaethol gyfun;
- Drwy ddefnyddio'r saith cwestiwn canlynol a methodoleg 'Signs of Safety'[33], nodi ac archwilio ymarfer unigol ac asiantaethol y cyfranogwyr mewn perthynas â'r fenyw ifanc:

    1. Beth aeth yn dda?
    2. Beth oedd yr arferion da a nodwyd?
    3. Beth nad aeth yn dda yn eich barn chi?
    4. Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol fel unigolyn neu fel asiantaeth?
    5. Fyddech chi'n gwneud yr un penderfyniadau heddiw ac yn cymryd yr un camau?
    6. Ydych chi/eich asiantaeth wedi dysgu gwersi yn sgil hyn?
    7. Beth yw'r camau gweithredu y mae angen i chi eu cymryd er mwyn sicrhau bod y pethau rydych chi/eich asiantaeth wedi'u dysgu yn newid yr hyn rydych yn ei wneud yn y dyfodol?
- Llywio'r canfyddiadau, y gwersi a ddysgwyd a'r camau gweithredu ar gyfer yr Adroddiad hwn;
- Ystyried cylch gwaith ychwanegol yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig, yn unol â'r canllawiau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant.*

Roedd yr ymarferwyr a'r asiantaethau a gafodd eu cynrychioli yn y Digwyddiadau Dysgu o'r sefydliadau canlynol:

- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru);
- Yr Heddlu;
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Theuluoedd yr Awdurdod Lleol;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Arbenigol;
- Gofal Iechyd Nugent;
- Addysg;
- Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau;
- Meddygfa'r Meddyg Teulu;
- Darparwr Hyfforddiant Lleol;
- Gyrfa Cymru;
- Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR);
- Gwasanaethau Tai yr Awdurdod Lleol

[33] Turnell Andrew ac Edwards Steve: Signs of Safety (A solution and Safety Orientated Approach to Child Protection Casework), UDA, WW Norton & Company, 1999.

Gwerthuswyd bod y ddau Ddigwyddiad Dysgu wedi bod yn llwyddiannus iawn a bod prosesau myfyrio a dysgu wedi mynd rhagddynt ar lefel unigol ac asiantaethol. Nodwyd camau gweithredu er mwyn gwella gwaith ymarferwyr ac asiantaethau, ac mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn yr Adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig.

Cyfranogiad y Teulu a'r Broses Adolygu

Lle y bo'n briodol, cafodd aelodau o deulu'r fenyw ifanc eu cynnwys yn llawn yn y broses adolygu a gwnaethant groesawu'r Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig. Cyfarfu aelodau o deulu'r fenyw ifanc, gan gynnwys ei rhieni a'r rhan fwyaf o'i hanner brodyr/chwiorydd, naill ai'n uniongyrchol â'r Adolygydd Arweiniol neu gwnaethant siarad â hi dros y ffôn neu drwy neges destun/e-bost. Pan nad oedd yn briodol cwrdd neu siarad yn uniongyrchol â dau o hanner brodyr/chwiorydd y fenyw ifanc, gwnaeth eiriolwyr proffesiynol siarad a/neu gwrdd â'r Adolygydd Arweiniol ar eu rhan a chyfleu eu teimladau a'u barn amdani.

Yna cafodd safbwyntiau, atgofion a theimladau'r teulu, ynghyd â gwersi i'w dysgu a nodwyd, eu cyfleu gan yr Adolygydd Arweiniol fel rhan ganolog o'r Digwyddiadau Dysgu a chawsant eu cynnwys yn y dysgu proffesiynol o'r digwyddiadau; cafodd eu safbwyntiau eu hystyried a'u dogfennu fel rhan o'r Adroddiad ar yr Adolygiad hefyd. Mae'r teulu wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig drwy gydol y broses adolygu, ac ar bob cam allweddol, a chynigiwyd rhagor o gyfarfodydd â'r Adolygydd Arweiniol/Ail Adolygydd iddynt a/neu Gadeirydd y Panel cyn cyhoeddi'r Adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig.

Mae mam y fenyw ifanc hefyd wedi cadw mewn cysylltiad â'r Prif Arolygydd dros y ffôn, a anfonodd unrhyw bryderon dybryd ymlaen at yr Awdurdod Lleol, yn unol â gweithdrefnau diogelu.

Siaradodd yr Adolygydd Arweiniol â Gofalwr Maeth hefyd, a fu'n gofalu am y fenyw ifanc yn 2016/17 ac a oedd yn agos ati, yng ngŵydd ei Weithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol. Gallai gynnig llawer o wybodaeth er mwyn galluogi'r Adolygydd Arweiniol i ddysgu mwy am safbwynt y fenyw ifanc, a chafodd y wybodaeth hon ei rhannu yn y Digwyddiadau Dysgu i weithwyr proffesiynol. Cynigiwyd cyfarfod pellach â'r Adolygydd Arweiniol i'r gofalwr maeth a'r Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol pan gyhoeddwyd yr Adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig.

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad y derbyniwyd y wybodaeth: …… *(dyddiad)*

Llythyr cydnabod wedi'i anfon at Gadeirydd y Bwrdd: ……*(dyddiad)*

Wedi'i ddosbarthu i arolygiaethau/arweinwyr polisi perthnasol: .....……*(dyddiad)*

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
AGGCC			
Estyn			
AGIC			
Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi			
Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi			

Atodiad 1 Cylch Gorchwyl ar gyfer CYSUR 2/2018 (Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig)

Tasgau Craidd

- Pennu p'un a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau gwasanaethau penodol a'r Bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd gwaith rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaethau i'r plentyn a'r teulu.
- Pennu i ba raddau roedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu er lles pennaf y plentyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Ceisio cyfraniadau at yr adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion a gynhelir ar yr un pryd â'r achos hwn sy'n gysylltiedig ag ef.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaethol ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr (yn y drefn honno) a nodi'r adnoddau sydd eu hangen.

Gan fod hwn yn Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig, yn ogystal â'r Broses Adolygu, dylid ystyried y canlynol yn benodol:

- A oedd hanes neu wybodaeth berthnasol flaenorol am y plentyn/aelodau o'r teulu yn hysbys ac a ystyriwyd hyn wrth i weithwyr proffesiynol asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r plentyn, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd y wybodaeth honno at y canlyniad i'r plentyn?
- A oedd y cynllun amddiffyn plant (a/neu'r cynllun plant sy'n derbyn gofal neu'r cynllun llwybr) yn gadarn ac yn briodol ar gyfer y plentyn hwnnw a'i amgylchiadau.
- Effeithiolrwydd y gwaith cynllunio pontio (fel y bo'n briodol)
- A gafodd y cynllun ei roi ar waith yn effeithiol, ei fonitro a'i adolygu ac a wnaeth pob asiantaeth gyfrannu'n briodol at y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r cynllun amlasiantaethol.
- Pa agweddau ar y cynllun a weithiodd yn dda, beth na weithiodd yn dda a pham?
- I ba raddau wnaeth asiantaethau ddwyn ei gilydd i gyfrif mewn perthynas ag effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y plentyn.
- A gafodd y protocol ar gyfer anghydfod proffesiynol ei ddefnyddio.
- A gafodd priod ddyletswyddau statudol yr asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r plentyn a'r teulu eu cyflawni.
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a rwystrodd asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol).

TERFYNOL

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r Panel Adolygu yn unol â'r canllawiau ar adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio amserlen a chrynodeb cychwynnol o'r achos a nodi unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd ar unwaith.
- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag Adolygwyr Annibynnol ac aelodau'r Panel.
- Llunio amserlen gyfun, dadansoddiad cychwynnol a chanlyniadau dysgu.
- Ar y cyd â'r adolygwyr, cynllunio Digwyddiad Dysgu i ymarferwyr a rheolwyr yn y drefn honno, gan gynnwys nodi'r bobl sy'n bresennol a'r trefniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth.
- Ar y cyd â'r adolygydd/adolygwyr, cynllunio'r trefniadau ar gyfer cysylltu ag aelodau o'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried yr adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig drafft er mwyn sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni a bod unrhyw beth ychwanegol y mae angen ei ddysgu wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer eu cyflwyno i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant eu hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau ar gyfer rhoi adborth i aelodau o'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau a chyn ei gyhoeddi.
- Bydd aelodau'r Panel Adolygu yn glynu wrth egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar Rannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd).

Tasgau penodol yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant

- Cymeradwyo a chytuno ar Gylch Gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig/Adolygiad Ymarfer Plant.
- Cytuno ar gasgliadau'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer eu cyflwyno i'r Bwrdd eu hystyried a chytuno arnynt.
- Monitro cynlluniau gweithredu Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig/Adolygiadau Ymarfer Plant er mwyn sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu cyflawni ar ran y Bwrdd.

Tasgau Penodol Bwrdd Diogelu Plant CYSUR

Bydd y Bwrdd yn gwneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig/ Adolygiad Ymarfer Plant yn cael ei gynnal.
- Cadw at yr amserlenni cwblhau, yn unol â'r canllawiau statudol.
- Derbyn yr adroddiad terfynol ar yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig/Adolygiad Ymarfer Plant a'r cynllun gweithredu a'u cymeradwyo'n ffurfiol.
- Ystyried unrhyw bwyntiau dysgu gan y Bwrdd, a chytuno arnynt, i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.

TERFYNOL

- Anfon y ddogfen derfynol i asiantaethau perthnasol er mwyn iddynt wneud sylwadau arni cyn ei chymeradwyo a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau'r trefniadau i Is-Grŵp yr Adolygiad reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol, gan gynnwys sut y bydd y gwelliannau i wasanaethau a ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio ar gyfer cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl cwblhau'r broses.
- Cytuno ar y broses o ddosbarthu'r ddogfen i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud pob sylw ac ymateb cyhoeddus i ddiddordeb y cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad nes bod y broses wedi'i chwblhau.

Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Rhaid cadarnhau perchenogaeth yr holl wybodaeth a dogfennau fel bod modd cael caniatâd priodol y sefydliad perthnasol cyn eu rhannu. Dim ond gwybodaeth sy'n eiddo iddynt ac wedi'i llunio ganddynt y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r Panel gadarnhau'r cyfrifoldeb am wneud cais am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) a chytuno arno, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel y gwelir isod) yn cael ei lofnodi ym mhob un o gyfarfodydd y Panel gan bawb sy'n bresennol er mwyn ailgadarnhau'r ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig/ Adolygiad Ymarfer Plant, rhaid bod gan bob asiantaeth ffiniau cyfrinachedd y cytunwyd arnynt. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny ac fe'i cynhelir yn unol â dealltwriaeth a rennir:
- Caiff cyfarfod y Panel ei alw yn unol â Chanllawiau *'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.*
- Ystyrir bod unrhyw achos o ddatgelu gwybodaeth y tu allan i'r Panel, y tu hwnt i'r hyn y cytunwyd arno yn y cyfarfod, yn torri cyfrinachedd y testun ac yn torri cyfrinachedd yr holl asiantaethau dan sylw.
- Os teimlir bod cydsyniad i ddatgelu yn hanfodol, dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan Gadeirydd y Panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail egwyddor 'angen gwybod'.
- Fodd bynnag, yn y pen draw, cyfrifoldeb Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw datgelu gwybodaeth gan y Panel Amlasiantaethol i drydydd parti a rhaid cyfeirio at Reolwr Busnes y Bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.

TERFYNOL